

CAERDYDD Sy'n Dda i Blant



06 SICRWYDD
ANSAWDD

WWW.CAERDYDDSYNDDAIBLANT.CO.UK



5.1 SAFONAU CYFRANOGIAD CENEDLAETHOL - CEFNDIR

Datblygwyd y Safonau Cyfranogiad gan yr Undeb Cyfranogiad yn wreiddiol. Maent wedi'u hadnewyddu erbyn hyn gan weithwyr Cymru Ifanc a'r Fforwm Ieuenctid, a lywiwyd gan ymgynghoriadau â phobl ifanc. Cefnogwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru a nododd rôl y Safonau Cyfranogiad mewn canllawiau statudol.

Mae'r Safonau Cyfranogiad yn nodi materion allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Adolygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Safonau Cyfranogiad bob un o'r saith safon gan sicrhau bod pob un yn adlewyrchu'r ethos yn seiliedig ar hawliau sy'n rhan annatod o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ategir y safonau hefyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfranogiad plant a phobl ifanc, oedolion a chymunedau wrth wraidd gwella lles, yn ogystal â bod yn un o'r pum ffordd o

weithio.

- Mae canllawiau'r Ddeddf ar gyfer 'Rhannu pwrpas: Rhannu Dyfodol' yn cyfeirio'n benodol at Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

- Mae canllawiau'r Ddeddf ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r disgwyliad y byddant yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wrth weithio gyda'u partneriaid, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gael llais.

Nid disgwyliadau newydd mo'r rhain. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan ers pasio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn 2010, ac mae'r canllawiau statudol wedi bod mewn grym ers 2012.

Y SIARTER

Yn ystod 2017 mae Cymru Ifanc wedi bod yn gweithio ar ddau faes:

1. Adnewyddu'r broses nod barcud ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n cynnal archwiliadau
2. Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol newydd a fydd yn tynnu sylw at arferion cyfranogiad lleol ac yn cipio gwybodaeth sy'n ategu'r broses o adrodd ar Gynlluniau Lles priodol yn y dyfodol

Defnyddir y Siarter gan sefydliadau a gwasanaethau i ddangos eu hymrwymiad i'r Safonau Cyfranogiad. Mae'n ddatganiad o fwriad eu bod yn gweithio yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Fodd bynnag, rhaid iddynt gyflawni'r Nod Barcud Cenedlaethol er mwyn defnyddio ei logo. Mae'r Siarter yn para am uchafswm o 2 flynedd a bydd sefydliadau yn cael ailymgeisio am y Siarter. Ategir y Siarter hon gan dair colofn y CCUHP - Diogelu, Darparu a Chyfranogi.

Y NOD BARCUD

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i fonitro effeithiolrwydd y gwaith o ddatblygu cyfranogiad ieuenctid o fewn eu sefydliadau. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau. Mae'r Nod Barcud Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Dyfernir tystysgrif (sy'n ddilys am 4 blynedd) i wasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r saith Safon Genedlaethol. Fodd bynnag, os na fydd sefydliad yn pasio'r archwiliad, bydd yn cael adborth gydag argymhellion sy'n manylu ar ei feysydd o arfer da, a'i flaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Y BROSES

Gellir defnyddio hunanasesu yn fewnol fel offeryn datblygiadol i fesur arferion cyfranogol. Mae'n rhaid i bob sefydliad ddarparu o leiaf dri darn o dystiolaeth i bob safon, gan amlygu gwaith sydd wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Gellir gweld enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth yn y pecyn hunanasesu ar ddiwedd yr adran hon. Mae'n rhaid graddio pob safon gan ddefnyddio'r allwedd:

- Bwriadu – rydych wedi nodi maes y mae angen ei wella
- Datblygu – rydych chi'n gweithio ar hyn o bryd tuag at wella'r maes a nodwyd
- Cyflawni – rydych wedi cyflawni neu yn cyflawni yn y maes hwn. Sylwer: er mwyn gwneud cais am y Nod Barcud, rhaid i chi fod yn cyrraedd pob safon ac ymrwymo i'r Siarter

5.1 HYFFORDDIANT ARCHWILWYR IFANC

Mae'n arfer da cynnwys teuluoedd yn y gwaith o asesu ansawdd y gwasanaeth a gânt. Mae'r adran hon yn cefnogi ymarferwyr i sefydlu timau o Archwilwyr Ifanc. Yr Archwilwyr Ifanc yw un ffordd sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth asesu ansawdd gwasanaeth; mae eraill yn cynnwys siopwr dirgel, grwpiau ffocws, arolygon bodlonrwydd a'u tebyg.

Pwrpas tîm Archwilwyr Ifanc yw:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y Safonau gorau posibl o ran cyfranogi mewn sefydliadau sy'n gweithio gyda hwy a'u bod hefyd yn cael effaith arnynt.
- Ymweld â gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn effeithio arnynt er mwyn asesu a gwerthuso sut y maent yn bodloni Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer cyfranogi plant a phobl ifanc; cynghori ar welliannau ac adrodd ar eu canfyddiadau.
- Caniatáu i bobl ifanc leisio eu barn a rhoi cyfle iddynt ddyfarnu Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol i sefydliadau sy'n bodloni'r holl safonau
- Annog gwasanaethau sy'n bodoli eisoes i ystyried eu hymarfer a rhoi newidiadau ar waith.

SUT Y CYNHELIR ARCHWILIADAU

Er mwyn asesu perfformiad gwasanaethau yn erbyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc, bydd yn ofynnol i sefydliadau wneud hunanasesiad. Yna gellir gofyn i dîm Archwilwyr Ifanc (yn dibynnu ar ba gam y mae'r sefydliad wedi cyrraedd) gynnal archwiliad o'r gwasanaeth ac yn ei dro ddyfarnu Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol.

Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi i'r bobl ifanc amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â'r dasg yn hyderus ac yn ddiogel. Er mwyn hyfforddi'r archwilwyr ifanc yn drylwyr, argymhellir eu bod yn cael eu hyfforddi dros gyfnod o amser neu yn ystod cwrs preswyl. Mae dau brif flocc i'r hyfforddiant: Un a fydd yn edrych ar sgiliau cyffredinol a'r ail yn benodol i'r dasg benodol o archwilio.

Gan weithio mewn timau bach (o leiaf 3 pherson ifanc i bob tîm), mae'r bobl ifanc yn ymweld â'r gwasanaeth/sefydliad sydd i'w archwilio. Yn ystod yr ymweliadau archwilio, mae'r archwilwyr ifanc yn llenwi ffurflenni sy'n cofnodi cynnydd sefydliadau yn erbyn y safonau a fydd yn eu helpu i benderfynu a ydynt am ddyfarnu Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol. Yn syth ar ôl yr ymweliad, bydd y bobl ifanc yn cael eu holi am eu profiad a'u hasesiad gan eu gweithiwr cymorth a

defnyddio fformat adrodd safonol. Yna caiff adroddiad ei lunio a'i roi i'r sefydliad. Bydd y sefydliad wedyn yn cytuno ar unrhyw fesurau gwella y mae angen gweithredu arnynt cyn y gallant gael Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol. Bydd yr adroddiad yn gallu cyfrannu at raglen hunanasesu a chynllun gwella blynyddol y sefydliad. Mae'r bobl ifanc hefyd yn cael adborth ar unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohonynt.

CAM 1 – PARATOI A DATBLYGU

Mae'n bwysig o'r dechrau cadw mewn cof y gwahanol faterion moesegol a diogelu o fod yn archwiliwr ifanc. Rydym am i bobl ifanc gymryd rhan lawn yn ystyriaethau moesegol y fenter archwilwyr ifanc, gan roi'r cyfle iddynt drafod 'arferion gorau'. Fodd bynnag, mae diogelwch a lles pobl ifanc yn hollbwysig a dylid cynnwys hyn o'r dechrau.

DIOGELU PLANT

- Dylai pob gweithgaredd o fewn y fenter archwilwyr ifanc llynu at bolisiau amddiffyn plant a chyfrinachedd y sefydliad.
- Dylai pobl ifanc gynnal archwiliadau bob yn dri a gydag aelod o staff i sicrhau eu bod yn ddiogel.
- Dylid rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i bobl ifanc am amddiffyn plant a gwneud cwyn cyn dechrau'r prosiect.

5.2 HYFFORDDIANT AROLWG IFANC (PARHAD)

Gall yr egwyddorion canlynol fod yn sail i'r ystyriaethau moesegol hyn.

EGWYDDORION MOESEGOL CRAIDD

Bydd arolygwyr yn:

- diogelu diddordebau'r rheiny sy'n rhan o'r gwaith neu sy'n cael eu heffeithio gan eu gwaith
- adrodd eu darganfyddiadau'n gywir ac yn onest
- ystyried canlyniadau eu gwaith neu ei gamddefnydd ar y rheiny y maen nhw'n eu hastudio a chyfranogion eraill
- cydnabod ffiniau eu gallu
- sicrhau bod yr ymchwil a wneir ganddynt yn werth chweil ac y defnyddir dulliau ymchwilio priodol.
- Dylid ei ddarparu mewn termau ac iaith sy'n hygyrch ac ystyrlon i gyfranogwyr.

RECRIWTIO A HYRWYDDO

Mae'n bwysig bod amrywiaeth o bobl ifanc yn cael cyfle i fod yn Arolygwyr Ifanc os dymunant.

Gellid creu a dosbarthu posteri ar draws y gwasanaethau i ddenu pobl ifanc sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth. Hefyd, gellid rhoi hysbysiadau ar lythrau newyddion electronig (e-fwletinau) a'u hyrwyddo ar wefannau sefydliadau gyda disgrifiad manwl o rôl Arolygydd Ifanc (gweler Tabl 1). Gall y rheiny sy'n dangos diddordeb gael eu dewis trwy gyfweiliad anffurfiol neu drafodaeth un i un.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y project yn dibynnu ar gapasiti'r tîm sy'n dymuno eu hyfforddi a'u cefnogi.

TABL 1 – DISGRIFIAD RÔL YR AROLYGYDD IFANC

Young Person required for: Young Inspectors Team		
AIM:	• To ensure that children and young people are receiving the best possible Standards of participation in organisations that work with them. • To visit services that work with children and young people to assess and evaluate how well organisations are doing with meeting the National Children and Young People's Participation Standards for Wales, advise on improvements and report on their findings. • To allow young people to have their voices heard and to give them the opportunity to award a National Participation Kite-mark to organisations who meet all the Standards • To encourage existing services to reflect on their practice and implement change.	
TASKS:	• Attend and participate in all relevant training workshops. • Visit agencies and judge against selected criteria. • Feedback results to relevant agencies. • Award a National Participation Kite-mark to organisations who are meeting the Standards • Develop an Action Plan for those organisations who are not meeting the Standards	
TRAINING/ SUPPORT:	The training will be in the form of interactive activity workshops and planning meetings around participation and the National Children and Young People's Participation Standard for Wales. You will be supported through the process of developing the programme of activity and doing the inspections. You will also be rewarded appropriately (as agreed by yourself and your supporting adult) for all your hard work	
TIME COMMITMENT: (Approximate)	Initial training	10 hours
	Preparation for (each) inspection visit	2 hours
	Inspection visit	2-3 hours
	Developing feedback (for each project)	2 hours
	Delivering feedback (for each project) (optional)	1-2 hours
	Review/ evaluation meeting	2-3 hours
QUALIFICATIONS RECEIVED:	YAA Bronze, working towards Silver or other Qualification where more appropriate	
QUALITIES NEEDED:	Those who are friendly and have the ability to work both as part of a team and individually would be most suited to the role.	
BENEFITS:	Good for CV and confidence.	

5.2 HYFFORDDIANT AROLWG IFANC (PARHAD)

TRAINING

Mae amserlen fras wedi'i nodi (gweler Tabl 2) sy'n rhoi syniad i oedolion o nifer y sesiynau sy'n ofynnol i hyfforddi pobl ifanc i fod yn arolygwyr. Fodd bynnag, mae'r amser a gymerir i ddarparu'r hyfforddiant yn dibynnu ar yr oedolion sy'n hyfforddi, y bobl ifanc, a'r dewisiadau o ran dull darparu, e.e. sesiynau nos; preswyl; yn ystod gwyliau ysgol ac ati.

Rydym am i'r bobl ifanc ymgysylltu â'r project; felly mae'r gweithdai'n amrywiol iawn. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithgareddau torri'r iâ, ymarferion meithrin tîm, drama a chwarae rôl, cwisiau, cyflwyniadau, meddwl am syniadau ac ymarferion gwerthoedd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhaid i'r rhaglen fod yn hyblyg er mwyn annog gwirfoddolwyr i fod yn greadigol a rhannu eu syniadau os dymunant.

Gall pobl ifanc sy'n dymuno datblygu eu sgiliau hefyd gyfrannu at y rhaglen drwy ymchwilio a chyflwyno rhannau o'r rhaglen hyfforddiant gyda chymorth staff. Gall aelodau hŷn o'r grŵp Arolygwyr Ifanc hefyd ymgymryd â rôl y prif arolygydd neu'r cadeirydd yn ystod trafodaethau.

TABLE 2: AMSERLEN

Noder y gellir rhoi hyfforddiant trwy sesiynau nos neu sesiynau preswyl ar y penwythnos

Stage	Activities
Recruitment	Young people informed of this volunteering opportunity through the Standards website, Funky Dragon website and e-bulletin, youth forums, and on the internet. Posters displayed and flyers distributed.
Selection	Those who have signed up are invited for an interview with a full time worker locally. A committed team of 8 -10 or more ² young people of mixed gender are selected.
Introductory evening session	Group are introduced to one another through team building activities and games. Training in Participation, National Children and Young People's Participation Standards. All evening sessions consists of 2 hours contact time (depending on each local authority's situation) plus half an hour after for evaluation purposes.
Second evening session	Participation and Standards continued. Young Inspectors brief and guidelines introduced. Team building exercises.
Third evening session	Inspection Skills.
Fourth evening session	Planning Inspection and Logistics.
Fifth evening session	Recording Evidence and Assessments.
Sixth evening session	Role play exercises on being a Young Inspector.
Seventh evening session	Report Writing.
Services will contact the young people's inspection team	Organisations will contact the Young Inspectors' Team after they have filled out a self-assessment form and have reached in their opinion 'achieving' status in all 7 of the Standards.
Visits	Young people conduct visits in threes and briefed by the key worker before and after visits. Travel expenses given. Young people write up their comments.
Eighth evening session	Any tasks remaining. Young people invited to evaluate and feed back their experience of being a Young Inspector.
Ninth evening session	Young people draw together evidence of their achievements into a portfolio for their Youth Achievement Awards.
Social event	Reward for taking part and opportunity for reflection, closure and presentation of certificates, etc.

5.2 HYFFORDDIANT AROLWG IFANC (PARHAD)

CAM 2 – AROLWG – YMWELIADAU AC ASESU

Mae ymarferion wedi'u creu i drafod gweithdrefn sylfaenol yr arolygwyr a'r problemau a all godi. Datblygwyd rhestr wirio derfynol o'r weithdrefn sylfaenol ar gyfer Ymweliad Arolwg yn nodi'r hyn y mae angen i Arolygwyr Ifanc ei wneud, yr hyn a all fod ei angen arnynt a rhai datrysiadau i broblemau a all godi.

CAM 3 – CASGLU DARGANFYDDIADAU

Ar ôl i'r ymweliadau gael eu cynnal, caiff adroddiad ei greu gan yr Arolygwyr Ifanc i nodi rhai o'r darganfyddiadau ac asesu'r project. Bydd Arolygwyr Ifanc yn derbyn hyfforddiant ar sut i ysgrifennu adroddiad a gellir dyrannu gwahanol dasgau iddynt.

CAM 4 - ADBORTH

Rhannu'r canlyniadau â'r gwasanaethau

Anfonir darganfyddiadau'r Arolygwyr Ifanc mewn arolwg at y bobl berthnasol (h.y. y prif gyswllt yn y sefydliad yn ystod yr arolwg a'r Tîm Canolog Teuluoedd yn Gyntaf lle y bo'n briodol). Yna gall y bobl ifanc gwrdd â'r gweithwyr i gyflwyno eu darganfyddiadau a thrafod rhai o'u syniadau am y project.

RÔL AROLYGYDD IFANC

ANGEN

Hyfforddi ymhellach a chael dealltwriaeth o broses yr arolygydd ifanc.

NOD

Nod y gweithgareddau hyn yw dysgu defnyddwyr gwasanaeth am y broses arolygu, yr hyn sy'n ofynnol a sut i gynnal arolwg.

AMCANION

- Hyfforddiant safonau cyfranogi ac arolygwyr ifanc.
- Gwellu sgiliau defnyddwyr gwasanaeth o ran yr Agenda Cyfranogiad leol;
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddod i adnabod ei gilydd a rhannu profiad cyffredin;

DULL

Cynnal cyfres o weithdai addysgol, difyr a rhyngweithiol.

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Esbonio mai rôl yr arolygydd ifanc fydd asesu sefydliadau yn erbyn y Safonau ac y byddwn yn edrych ar y dasg hon mewn manylder wrth i'r cwrs fynd rhagddo.

Gwnewch linell ar draws yr ystafell gydag un pen yn cynrychioli rhywbeth cyffyrddus iawn a'r llall

yn cynrychioli rhywbeth anghyffyrddus iawn.

Darllenwch adrannau o ddisgrifiad swydd yr arolygydd ifanc a gofynnwch i'r bobl ifanc ddangos pa mor gyffyrddus (neu beidio) ydyn nhw â'r agwedd honno ar y rôl neu'r broses drwy gymryd eu lle priodol ar y llinell.

Nodwch unrhyw bryderon a'u cysuro lle gallwch chi.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Rôl arolygydd ifanc	Yn gyffyrddus â rôl yr arolygydd ifanc ac o ran ymdrin ag unrhyw bryderon sydd gan y cyfranogwyr ifanc	Disgrifiad swydd arolygydd ifanc.

RÔL AROLYGYDD IFANC

(PARHAD)

DISGRIFIAD SWYDD AROLYGYDD IFANC

Mae angen Person Ifanc ar gyfer:
Y Tîm Arolygwyr Ifanc

NOD

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y safonau cyfranogi gorau posibl mewn sefydliadau sy'n gweithio gyda hwy.
- Ymweld â gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i asesu a gwerthuso pa mor llwyddiannus yw sefydliadau o ran diwallu Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru, rhoi cyngor o ran gwelliannau ac adrodd ar eu darganfyddiadau
- Rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud a rhoi'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol i sefydliadau sy'n diwallu'r holl Safonau.
- Annog gwasanaethau presennol i ystyried eu harferion a rhoi newidiadau ar waith.
- Mynychu pob gweithdy hyfforddi perthnasol a chymryd rhan ynddynt.

TASGAU

- Ymweld ag asiantaethau a barnu yn erbyn y meini prawf penodol.
- Rhannu'r canlyniadau â'r asiantaethau perthnasol.
- Dyfarnu Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol i sefydliadau sy'n cwrdd â'r Safonau.
- Datblygu Cynllun Gweithredu i'r sefydliadau hynny nad ydynt yn diwallu'r Safonau.

HYFFORDDIANT/CEFNOGAETH

Bydd yr hyfforddiant ar ffurf gweithdai gweithgareddau rhyngweithiol a chaiff cyfarfodydd eu cynllunio ar sail cyfranogiad a Safon Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru. Cewch eich cefnogi trwy'r broses o ddatblygu'r rhaglen gweithgareddau a chynnal yr arolygiadau. Cewch hefyd eich gwobrwyo'n briodol (fel y cytunir gennych chi a'ch oedolyn cynorthwyol) am eich holl waith caled.

YMRWYMIAD AMSER (TUA)

- Hyfforddiant cychwynnol: 30 awr
- Paratoi ar gyfer (pob) ymweliad arolwg: 2 awr
- Ymweliad arolwg: 2-3 awr
- Datblygu adborth (ar gyfer pob project): 2 awr
- Rhoi adborth (ar gyfer pob project) (dewisol): 1-2 awr
- Cyfarfod adolygu/gwerthuso: 2-3 awr

RHINWEDDAU SY'N OFYNNOL

Y rheiny sy'n gyfeillgar ac sydd â'r gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn unigol fyddai'r rhai mwyaf addas ar gyfer y rôl.

MANTEISION

- Rhywbeth da ar gyfer y CV a hyder

JIG-SO HANES CYFRANOGI

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhannwch y cyfranogwyr yn grwpiau bach.

Rhowch set o gardiau i bob grŵp gyda'r wybodaeth am linell amser arnynt. Gofynnwch i'r grŵp ddidoli'r cardiau yn ôl dyddiad.

Gwiriwch â chopi meistr, gan esbonio unrhyw gamddealltwriaeth cyn ei drafod.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Jig-so hanes cyfranogi	Deall yr hanes a pham bod y safonau'n bodoli.	Copy meistr o linell hanes.

JIG-SO HANES CYFRANOGI (CONTINUED)

JIG-SO HANES CYFRANOGI

Mabwysiadodd Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn a chadarnhaodd y Deyrnas Unedig y Confensiwn ar 16 Rhagfyr 1991, gyda sawl datganiad ac amheuaeth. Mae hyn yn golygu nad oeddent yn cytuno y gellid rhoi popeth yn y confensiwn ar waith yn y DU ond roeddent yn credu ei fod yn syniad da.

Rhyddhawyd adroddiad ar ymchwiliad ynghylch camdriniaeth ym Mryn Estyn a chartrefi plant eraill yng Ngogledd Cymru rhwng 1974 a 1990, a oedd yn cynnwys argymhelliad i greu swydd Comisiynydd Plant i atal pethau ofnadwy fel hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

2000 – Cyhoeddwyd Extending Entitlement yng Nghymru a oedd yn nodi newid o ran polisi.

Dywed y dylai sefydliadau ddarparu gwasanaethau y mae pobl ifanc eu heisiau – nid gwasanaethau y mae pobl eraill yn meddwl sydd eu hangen arnynt.

2001 – penodwyd Comisiynydd Plant Cymru.

2002 – Sefydlwyd y Ddraig Ffyni, y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Roedd y bobl ifanc a oedd yn rhan o'r Ddraig Ffyni wedi cael digon o bobl yn gofyn am eu barn heb gael adborth ar ôl rhoi eu barn. Felly roeddent am i rywbeth gael ei wneud i sicrhau y gallai'r holl bobl ifanc yng Nghymru ddisgwyl yr un profiad o gyfranogi lle bynnag yr oedden nhw.

Datblygodd y Consortiwm Cyfranogi a'r Uned Cyfranogi saith Safon Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Byddai'r Safonau hyn yn helpu i fesur safon y broses o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc o ran y gwaith y maen nhw'n cymryd rhan ynddo.

Mae'r Safonau'n ymwneud â; gwybodaeth, eich dewis chi, dim gwahaniaethu, parch, rhywbeth i chi, adborth a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Yn 2005, cytunodd y bobl ifanc yn y Ddraig Ffyni (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) byddai'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn beth da i Gymru gan bleidleisio o'u plaid.

Yn 2006, cafodd y Safonau eu treialu gyda phum grŵp o blant a phobl ifanc ledled Cymru i ganfod sut roedden nhw'n meddwl y gellid eu rhoi ar waith.

Trafodwyd y darganfyddiadau o'r ymarferion gyda phob grŵp mewn cyfarfod yn Ionawr 2007 a lansiodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Gall sefydliadau nawr ddefnyddio ffurflen hunanasesu i'w helpu i asesu p'un a ydynt yn diwallu'r Safonau ai peidio. Yn 2008, cytunodd Uned Cyfranogi Achub y Plant, y Ddraig Ffyni ac adrannau o Lywodraeth Cymru i fod yn rhan o arolwg peilot ar ôl llenwi ffurflenni hunanasesu.

Rydym nawr yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r Safonau ac annog pobl i ennill Nod Barcud sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r Nod Barcud yn symbol cydnabyddedig sy'n sicrhau bod set o safonau wedi'u cyflawni.

Yn y dyfodol, rydyn ni'n gobeithio y bydd y Safonau'n cael eu defnyddio gan lawer o wahanol sefydliadau gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gyda gwasanaethau i oedolion a phobl hŷn, i sicrhau bod pawb yn cael dweud eu dweud ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt nhw.

YMESTYN HAWLIAU, 10 HAWL

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Esboniwrch sut mae Ymestyn Hawliau wedi nodi newid o ran polisi, dull newydd gan y Gwasanaeth Ieuencid. Mae'n nodi newid o ddarparu gwasanaethau sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i ddarparu gwasanaethau y mae pobl ifanc eu heisiau.

Mae'r 10 hawl yn seiliedig ar y cysyniad o hawl gyffredinol, sy'n golygu bod gan bob person ifanc yng Nghymru hawl sylfaenol i amryw wasanaethau o safon uchel a fydd yn ei alluogi i gyfranogi'n effeithiol mewn cyfleoedd sy'n ymwneud â dysgu, cyflogaeth, iechyd da, dinasyddiaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac ar eu cyfer weithio ynghyd i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael y 10 hawl.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adoddau
20 munud	Mewn grwpiau bach. - Rhowch y 10 teitl hawl a'r cardiau disgrifiadau i bob grŵp. - Gofynnwch i'r grwpiau ddiolli'r diffiniadau yn ôl y teitlau. - Gwiriwch a thrafodwch, gan amlygu'r cysylltiadau rhwng yr hawliau ac erthyglau'r CCUHP.	Deall y 10 hawl estynedig a sut maen nhw'n cysylltu â'r CCUHP.	10 Cerdyn Hawl, Copi o erthyglau'r CCUHP

YMESTYN HAWLIAU, 10 HAWL (PARHAD)

• dysgu beth yw eich hawliau a'u deall • sicrhau eich bod yn gallu manteisio ar eich hawliau a'u deall a'u derbyn	• eich hawl chi yw cael y cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau, gwaith cynllunio a'r gwaith o adolygu camau gweithredu a all effeithio arnoch chi • mynnwch ddewis, mynnwch lais hyd yn oed os nad chi sy'n gwneud y penderfyniad	• teimlo'n dda a hyderus am eich hunan	• gallu dysgu am bethau sydd oddiddordeb i chi ac sy'n effeithio arnoch chi • mwynhau eich swydd • cymryd rhan yn y gweithgareddau yr ydych yn eu mwynhau – hamdden, chwaraeon, artistig, diddordebau, a diwylliant
• cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol a chymryd rhan frwd yn eich cymuned	• cael eich trin â pharch ac yngyfartal gan bawb • cael eich cydnabod am yr hyn sydd gennych i'w gyfrannu ac am eich cyflawniadau • dathlu'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni	• gallu manteisio'n rhwydd ar y gwasanaethau gorau y dylech eu cael yn lleol ac yn genedlaethol • sicrhau bod rhywun ar gael i'ch helpu i ddod o hyd iddynt	• byw bywyd iach, yn gorfforol ac yn emosiynol
• gallu cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar eich bywyd, pan fo ei angen arnoch	• byw mewn cartref a chymuned ddiogel		

YMESTYN HAWLIAU, 10 HAWL (PARHAD)

EICH HAWLIAU	DWEUD EICH DWEUD	TEIMLO’N DDA	ADDYSG A CHYFLOGAETH
CYMRYD RHAN	BOD YN UNIGOLYN	MYNEDIAD RHWYDD	IECHYD A LLES
MANTEISIO AR WYBODAETH A CHYFARWYDDYD	DIOGELWCH		

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 4

ERTHYGLAU CCUHP

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dosbarthu Erthyglau 12, 17 a 42.

Rhannwch y bobl ifanc yn barau a gofyn iddynt drafod pam bod y rhain yn bwysig.

- Pam y dewiswyd y tair erthygl hon?
- Sut maen nhw'n berthnasol i'w rolau fel Arolygwyr Ifanc?

Casglwch yr atebion a'u hysgrifennu yn y blaen.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Erthyglau CCUHP	Dealltwriaeth bellach o'r erthyglau hyn a'u pwysigrwydd o ran proses yr arolygwyr ifanc	Siart troi, Pennau, Taflen Erthyglau

ERTHYGLAU CCUHP

(PARHAD)

ERTHYGLAU 12, 17 A 42 CCUHP

ERTHYGL 12

(Parchu safbwyntiau'r plentyn)

Mae gan bawb yr hawl i ddweud eu dweud am yr holl faterion sy'n effeithio arnynt, a chael pobl i gymryd eu safbwyntiau o ddifrif.

ERTHYGL 17

(Cael gwybodaeth o'r cyfryngau torfol)

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o'r cyfryngau torfol. Dylai'r teledu, radio, papurau newydd a chyfryngau eraill gyflwyno gwybodaeth y gall plant ei deall.

Rhaid i lywodraethau helpu i amddiffyn plant rhag deunyddiau a all eu niweidio.

ERTHYGL 42

(Gwybodaeth am hawliau)

Rhaid i lywodraethau sicrhau bod plant ac oedolion yn gwybod am y Confensiwn.

MANTEISION CYFRANOGI

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Paratowch 4 taflen o bapur siart troi, gyda'r teitlau: 'Teuluoedd', 'Gweithwyr/Staff', 'Sefydliadau', a 'Cymuned'.

Rhannwch y cyfranogwyr yn 4 grŵp.

Bydd pob grŵp yn cael un o'r taflenni.

Gofynnwch i'r grŵp restru'r manteision o gyfranogi ar eu taflen, yn eu barn nhw.

Ar ôl pedwar neu bum munud, bydd pob grŵp yn rhoi taflen i'r grŵp ar ei chwith.

Yna bydd y grwpiau yn ychwanegu eu syniadau nhw at y daflen newydd o'u blaen. Ailadroddwch nes bod pob grŵp wedi cael pob taflen.

Pasiwch y taflenni'n ôl i'r grwpiau a ddechreuodd gyda hwy, a gofynnwch i'r grwpiau hynny gyflwyno crynodeb o'r wybodaeth. Yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael, gallai hyn fod ar ffurf neges destun neu bennawd mewn papur newydd neu rywbeth mwy manwl.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
30 munud	Manteision cyfranogi	Bydd y grŵp yn gallu nodi sut y bydd 'Teuluoedd', 'Gweithwyr/Staff', 'Sefydliadau', a'r 'Gymuned' yn elwa o gyfranogi.	Siart troi, Pennau

CYFLWYNO'R SAFONAU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Beth yw Safon?

Trefnwch y grŵp yn barau; rhwch lun o feic i bob pâr.

Gofynnwch iddynt restru'r hyn sydd ei angen i greu beic.

Yna gofynnwch iddynt adolygu eu rhestr a phenderfynu ar yr hyn sydd wir ei angen i wneud beic?

Gofynnwch gwestiynau am bethau fel lliw, math, maint, cloch, oes wir angen y rhain?

Esboniwch fod safonau'n mesur yr hyn sy'n hanfodol – nid y ffactorau a all fod yn bwysig i chi'n unigol.

Gofynnwch i'r grŵp ystyried sut y gallai hyn fod yn berthnasol wrth archwilio sefydliadau

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Cyflwyno'r safonau	Dechrau ystyried beth yw safon a'r safonau cyfranogi cenedlaethol a dod yn gyfarwydd â hwy	Bike picture, Standards poster

CYFLWYNO'R SAFONAU

(PARHAD)



Cael llais
Cael dewis

Having a voice
Having a choice

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc

Children and Young People's National Participation Standards

"Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i'w barn"

Erthygl 12: Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"

Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)

Mae hyn yn golygu:

Byddwn ni:

This means:

We will:

• Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus.

• Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati.
• Yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud.

1

Gwybodaeth
Information

• You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision.

• Provide information that is good quality, clear and accessible.
• Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make.

• Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.

• Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan.

2

Chi biau'r dewis
It's your choice

• You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you.

• Give you enough support and time to choose if you want to get involved.

• Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.

• Yn herio gwahaniaethu.
• Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.

3

Dim gwahaniaethu
No discrimination

• Children and young people are all different and have the right to be treated fairly.

• Challenge discrimination.
• Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people.

• Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu.

• Yn gwrandao ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddifri.
• Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig.
• Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.

4

Parch
Respect

• You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected.

• Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously.
• Work with you on things you say are important.
• Value what you have to offer.

• Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod.
• Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth.
• Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.

• Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwy a phleserus.
• Yn manteisio i'r eithaf ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau chi.

5

Bod ar eich ennill
You get something out of it

• You have the right to learn and be the best you can be.
• You will have opportunities to work with others and make a difference.
• We want you to be involved in positive experiences.

• Work with you in safe, fun and enjoyable ways.
• Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills.

• Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrandao ar eich syniadau chi.

• Bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser sydd wedi'i gytuno.
• Yn dweud wrthydd chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.
• Yn dweud wrthydd chi beth sy'n digwydd nesaf.

6

Adborth
Feedback

• You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to.

• Always ensure you have feedback in an agreed time.
• Tell you how your ideas have been used and why.
• Tell you what happens next.

• Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw'n ei wneud.

• Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau'n well.
• Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau.

7

Gweithio'n well drosodd chi
Working better for you

• Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.

• Work with you and learn how we can do things better.
• Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions.

Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogi
The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation



YW HYN YN YMWNEUD Â CHYFRANOGI?

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gwnewch linell ddychmygol ar draws yr ystafell.

Bydd un pen o'r llinell yn cytuno'n gryf,
a'r pen arall yn anghytuno'n gryf.

Gofynnwch i'r cyfranogwyr feddwl am eu hysgol
neu sefydliad penodol y maent yn rhan ohono.

Darllenwch y datganiadau o'r rhestr un ar y tro.
Mae'n rhaid i'r cyfranogwyr ystyried p'un a yw'r
datganiad yn berthnasol i'w sefydliad penodol.

Ar ôl i bob datganiad gael ei ddarllen, rhaid i'r
cyfranogwyr symud i sefyll ar y llinell. Bydd eu
lleoliad ar y llinell yn dibynnu ar sut y byddant yn
ateb y datganiad. Os ydyn nhw'n cytuno'n gryf
byddant yn sefyll ar y pen hwnnw o'r llinell, os ydyn

nhw'n cytuno i raddau byddant yn sefyll ychydig i
ffwrdd o'r llinell, os nad oes ganddynt farn neu os
nad ydyn nhw'n gwybod gallant sefyll yn y canol.

Cymerwch amser rhwng pob datganiad i lunio
arsylwadau a sylwadau gan y cyfranogwyr.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Llinell Farn	Dechrau ystyried sefydliad y maen nhw'n rhan ohono a sefyllfaoedd o arferion cyfranogi.	Cardiau cytuno / anghytuno, Datganiadau

YW HYN YN YMWNEUD Â CHYFRANOGI? (PARHAD)

DATGANIADAU LLINELL FARN

- Mae gan bawb ddigon o wybodaeth i gymryd rhan lawn a dweud eu dweud am bethau sydd o bwys iddyn nhw
- Mae'r sefydliad yn defnyddio o leiaf dair ffordd wahanol o rannu gwybodaeth (e.e. cylchlythyron, poster, gwasanaethau)
- Gallwn weld bod ein barn wedi arwain at newidiadau
- Rydyn ni'n cael digon o amser a gwybodaeth i wneud dewisiadau da
- Rwy'n gwybod bod gan fy sefydliad bolisi ar fwya'n iach

- Gall pawb yn fy sefydliad gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- Rwy'n cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau beth bynnag fy oedran, gallu neu gefndir.
- Rwy'n gallu meddwl am dair ffordd y mae'r sefydliad yn gwrandao ar safbwyntiau plant a phobl ifanc
- Rwy'n gallu meddwl am adeg pan gefais fy nghymryd o ddifrif a chael fy nhrin yn deg yn fy sefydliad
- Rwy'n mwynhau cael dweud fy nweud ar y penderfyniadau/ gweithgareddau ac yn elwa o hynny

- Pan fydd sefydliad yn cael cyfarfod, byddwn yn cwrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n rhwydd i ni eu defnyddio
- Rwy'n gwybod cyn i mi gymryd rhan sut y byddaf yn elwa (e.e. tystysgrif neu wobr)
- Pan fyddaf yn cymryd rhan mewn gweithgaredd neu broiect, byddaf yn clywed beth sy'n digwydd o ganlyniad
- Bydd fy sefydliad yn gofyn i mi beth rwy'n meddwl cyn y caiff penderfyniad ei wneud

GRWPIAU Y GWYDDOM AMDANYNT

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnwch i'r grŵp am enghreifftiau o gyrff sy'n gwneud penderfyniadau y gallai pobl ifanc fod yn rhan ohonynt. Ysgrifennwch hwy ar siart troi.

Sicrhewch fod yr enghreifftiau'n cynnwys
Cynghorau Ysgol, Fforymau Ieuenctid,

Eco-fforymau a'r Ddraig Ffyni.

Gofynnwch i'r grŵp, 'Beth mae'r grwpiau hyn yn ei wneud? I bwy? Ydyn nhw'n cael eu harwain gan berson ifanc?'

Nodiadau'r hwylusydd: Os yw'n annhebygol y gall eich grŵp feddwl am ddigon o awgrymiadau efallai y dylid cael rhywfaint o'r wybodaeth hon wrth law, fel arall gellir gofyn i'r cyfranogwyr ymchwilio iddynt yn annibynnol cyn neu yn ystod sesiwn.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Grwpiau y gwyddom amdanynt	Dechrau meddwl am sefydliadau a grwpiau y mae pobl ifanc yn rhan ohonynt a lle maent yn helpu i wneud penderfyniadau. Gall y rhain fod yn y gymuned leol neu'n genedlaethol	Siart troi, Pennau

AROLOGYWYR IFANC GWEITHGAREDD 9

Y SEDD POETH

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Rhowch gadair yn wynebu'r bedol cadeiriau y mae'r cyfranogwyr yn eistedd arnynt.

Dewch o hyd i rywbeth a all gynrychioli'r Arolygwyr Ifanc. Rhowch yr eitem hon ar y gadair wag – y sedd boeth.

Esboniwch mai dyma eu cyfle i rannu cwestiynau ac atebion am yr Arolygwyr Ifanc. Gall unrhyw un ofyn cwestiwn am yr Arolygwyr Ifanc, a gall unrhyw

un ateb. Caiff yr holl gwestiynau eu cyfeirio at y sedd boeth. Ceisiwch ateb yr holl gwestiynau eraill sy'n codi, gan roi'r cyfle i'r grŵp ateb yn gyntaf. Dylai'r hwylusydd gyfrannu gyn lleied â phosib ond weithiau bydd angen i chi esbonio neu roi atebion.

Sicrhewch fod y cwestiynau canlynol yn cael eu gofyn.

Cwestiynau:

- Beth yw diben yr AI?
- Pa rolau sydd gennych chi gyda'r AI?
- Pa mor aml fyddwch chi'n cwrdd?
- Pwy sy'n cael ymuno, sut maen nhw'n cael eu dewis / recriwtio?

- Beth yw ystod oedran yr aelodau?
- Pa gyrrff eraill sy'n gysylltiedig?

Ysgrifennwch yr atebion ar siart troi.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
25 munud	Y Sedd Poeth	Gwybodaeth am y rhaglen arolygwyr ifanc, a'r syniad o ofyn cwestiynau'n uchel o flaen eraill.	Siart troi, Pennau, Eitem ar gyfer y sedd boeth

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 10

HANES Y CEFFYL DU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Diben y gweithgaredd hwn yw cael cyfranogwyr i ymchwilio i sut maen nhw ac eraill yn gweithredu ac yn cyfathrebu mewn ymarfer tîm ymchwilio. Dylai gynyddu ymwybyddiaeth cyfranogwyr o sut mae grwpiau'n gweithredu a pha ymddygiad a sgiliau sy'n gallu helpu eu perfformiad neu effeithio'n negyddol arno.

Yn dibynnu ar faint y grŵp, dylid enwebu tri aelod o'r grŵp i fod yn arsylwyr neu ofyn am dri gwirfoddolwr. Dosbarthwch y cliwiau i'r grŵp. Gan ddefnyddio'r cliwiau mae'n rhaid iddynt ganfod y canlynol;

- 1. Llofruddiwr
- 2. Amser

- 3. Lleoliad
- 4. Arf
- 5. Cymhelliad

Ar ôl i'r gweithgaredd ddod i ben gofynnwch i'r grŵp ystyried pa mor dda roedden nhw wedi cyfathrebu gyda'i gilydd, unrhyw heriau a llwyddiannau.

Defnyddiwch yr arsylwyr i helpu gyda hyn.

Dylai'r drafodaeth hon gael ei hwyluso'n ofalus i sicrhau nad oes unrhyw un yn teimlo dan fygythiad.

Gofynnwch i'r cyfranogwyr ganolbwyntio ar eu cyfathrebu eu hunain a'u rôl yn y grŵp.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
25 munud	Hanes y Ceffyl Du	Sgiliau cyfathrebu, edrych dros y dystiolaeth ac ymchwilio	Taflen gliwiau y ceffyl du, Pennau, Papur

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 10

HANES Y CEFFYL DU

(PARHAD)

HANES Y CEFFYL DU

PLlungopiŵch set o’r cliwiau hyn gan eu gwneud yn fwy os yn bosibl. Torrwch ar hyd y llinellau dot fel y gellir rhannu’r cliwiau ymysg y cyfranogwyr. Efallai y byddai o ddefnydd pe baech yn sticio pob cliw ar ddarn o gerdyn, neu gerdyn wedi’i lamineiddio.

CLIW 1 Pan ganfuwyd Mr Armstrong yn farw, roedd ganddo glais mawr a gwaed ar ochr ei ben ac roedd ganddo gytiau dwfn ar ei wddf	CLIW 2 Ymosododd Mr Corrigan ar Mr Armstrong am 10.10pm ym maes parcio tafarn y Ceffyl Du	CLIW 3 Roedd dyn a oedd yn dod oddi ar fws rhif 38 y tu allan i dafarn y Ceffyl Du wedi gweld Mr Armstrong gyda gwaed dros ei wyneb i gyd	CLIW 4 Canfuwyd potel wydr gyda gwaed arno ym maes parcio’r Ceffyl Du
CLIW 5 Canfuwyd corff Mr. Armstrong am 11.15pm	CLIW 6 Pan welodd y dyn a oedd yn dod oddi ar y bws Mr. Armstrong roedd yn eistedd ar wal y maes parcio, yn dal ei ben	CLIW 7 Canfuwyd sbaner gyda gwaed Mr Armstrong arno gerllaw’r Ceffyl Du	CLIW 8 Gwelodd Mr. Corrigan Mr. Armstrong yn y bar a dechrau ei fygwth
CLIW 9 Roedd Mr. Armstrong yn cael perthynas gyda gwraig Mr. Corrigan	CLIW 10 Gwelodd y dyn tu ôl i’r bar Mr Barton yn gadael y bar am 10.10pm	CLIW 11 Am 10.00pm daeth Mr. Corrigan i mewn i’r dafarn a gofyn am botel o stowt	CLIW 12 Roedd ôl bysedd Mr. Barton ar y sbaner

HANES Y CEFFYL DU

(PARHAD)

CLIW 13 Gadawodd Mr. Corrigan a Mr. Armstrong y bar yn dadlau am 10.05pm	CLIW 14 Dyweddodd y dyn tu ôl i'r bar fod Mr. Armstrong a Mr. Barton yn dod i dafarn y Ceffyl Du'n rheolaidd	CLIW 15 Roedd Mr. Barton wedi bod yn yfed ar ei ben eu hun yn y Ceffyl Du	CLIW 16 Canfuwyd corff Mr. Armstrong yn y lôn gefn tu ôl i'r Ceffyl Du.
CLIW 17 Roedd ôl bysedd Mr. Corriganar yn y botel a oedd wedi torri	CLIW 18 Roedd Mr. Armstrong wedi bod yn farw am awr yn ôl yr arbenigwr meddygol a oedd yn gweithio gyda'r heddlu.	CLIW 19 Roedd Mr. Barton wedi cael ei weld yn agor bŵt ei gar ym maes parcio'r Ceffyl Du ar ôl 10.10pm gan gwsmer rheolaidda oedd ar ei ffordd i mewn i'r Ceffyl Du	CLIW 20 Roedd y ferch tu ôl i'r bar wedi cymryd ffansi at Mr Armstrong
CLIW 21 Canfuwyd gwaed Mr Armstrong yn y maes parcio a'r lôn gefn	CLIW 22 Roedd Mr Corrigan wedi dweud wrth Mr Armstrong ei fod yn mynd i'w ladd	CLIW 23 Dyweddodd y dyn tu ôl i'r bar fod Mr. Barton weithiau'n trosglwyddo amlen ar draws y bwrdd i Mr. Armstrong	CLIW 24 Byddai Mr Armstrong a Mr Barton yn cwrdd â'i gilydd yn y Ceffyl Du o bryd i'w gilydd
CLIW 25 Nid oedd yr heddlu'n gallu dod o hyd i Mr Barton ar ôl y llofruddiaeth	CLIW 26 Stopiodd bws rhif 38 y tu allan i dafarn y Ceffyl Du am 10.12pm	CLIW 27 Roedd hi'n amlwg bod y corff wedi cael ei lusgo cryn bellter	CLIW 28 Nid oedd Mr. Corrigan gartref pan alwodd yr heddlu draw i wneud ymholiadau ar ôl dod o hyd i'r corff

GORAU'R BYD/GWAETHA'R BYD

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Rhannwch yn grwpiau llai.

Mae angen darn o bapur a nifer o bennau lliw ar bob grŵp.

Rhowch un o'r 7 Safon i bob grŵp.

Her y grŵp yw dychmygu sut le fyddai'r sefydliad gorau yn y byd a'r sefydliad gwaethaf yn y byd o ran cynnwys/arddangos eu safon benodol. Sut le fyddai'r sefydliad gwaetha'n y byd o ran cynhwysiant? Sut le fyddai'r sefydliad gorau yn y byd o ran gwybodaeth?

Wrth i'r grwpiau weithio edrychwch ar eu gwaith gan ofyn iddynt esbonio eu gwaith, a gofynnwch a allent ddychmygu unrhyw beth gwell neu waeth na'r hyn maen nhw'n ei lunio.

Sicrhewch fod digon o amser i'r grwpiau rannu eu lluniau gydag esboniadau gyda phawb.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
30 munud	Gorau'r byd/ Gwaetha'r byd	Dechrau meddwl beth fyddai sefydliad yn ei wneud, a sut le fyddai'r sefydliad gorau a gwaethaf yn y byd. Meddwl am yr hyn yr hoffent ei weld / y byddant yn edrych amdano mewn arolwg	Safonau, Pennau, Papur

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 12

TRIONGLI

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Esboniwr fel arolygwyr y bydd angen i chi gasglu tystiolaeth o wahanol ffynonellau.

Gofynnwch i'r grŵp feddwl sut y gallen nhw ddarganfod a oes un o'r hwyluswyr yn hoffi menynd chaw mwnci.

Ysgrifennwch yr awgrymiadau.

Awgrymiadau/heriau i'r grŵp::

- Os gofynnwch i'r hwylusydd, a fydd yn dweud y gwir wrthydd?
- Beth os na fydd yr hwylusydd yn bresennol?

- Yw hi'n ddigon i gymryd gair yr hwylusydd?
- Beth arall allen ni ei ddefnyddio fel tystiolaeth? Edrych yn y cypyrddau?

Dylai'r grŵp feddwl am bob math o awgrymiadau anarferol, ond rydyn ni eisiau sicrhau eu bod yn nodi tair ffynhonnell dystiolaeth: yn yr esiampl- yr unigolyn, ffrindiau a theulu'r unigolyn, menynd chaw mwnci yn y cwpwrdd neu ar restr siopa a derbynebau.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
10 munud	Triongli	Cofiwch eu hatgoffa wrth gynnal arolwg y bydd rhaid iddynt gael tystiolaeth gan y staff, y defnyddwyr (pobl ifanc), a thystiolaeth ffisegol- adroddiadau, cofnodion o gyfarfodydd, ac yn y blaen. Peidiwch â dibynnu ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthydd yn unig.	Pennau, Siart troi

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 13

AMLYGU'R SAFONAU

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhannwch y cyfranogwyr yn grwpiau bach. Mae angen darn mawr o bapur a phennau marcio ar bob grŵp.

Rhowch Safon i bob grŵp ei hystyried.

Ar y daflen gofynnwch iddynt:

- Restru'r hyn fyddai ei angen arnynt i ganfod a yw'r Safon yn cael ei chyflawni
- Ystyried pa dystiolaeth fyddai ei hangen arnynt i ganfod a yw sefydliad yn diwallu neu'n methu'r Safon benodol

Rhowch amser i bob grŵp fynd i'r afael â dwy Safon neu fwy. Rhowch amser i'r grwpiau rannu'r hyn a drafodwyd ganddynt.

Awgrymiadau posibl:

- Sut fydddech chi'n mesur y safon?
- Pa fesurau sy'n briodol?

- Yw rhai pethau'n haws eu mesur nag eraill?
- Beth yw tystiolaeth dderbyniol?
- Yw rhai pethau'n haws eu dangos nag eraill? (Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn â'r gweithgaredd Cefndir Moesegol mewn sesiwn ddiweddarach)

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
10 munud	Amlygu'r Safonau	Gan ystyried y wybodaeth y bydd angen iddynt ei gweld, beth yw tystiolaeth dderbyniol	Safonau, Pennau, Siart troi

Gallai fod yn ddefnyddiol cyflwyno un o'r Safonau i'r grŵp cyfan. Er enghraifft: Gwybodaeth. Beth fyddai angen i chi ei ddarganfod?

- Yw'r wybodaeth yn hawdd ei deall i bobl ifanc?
- Yw'r wybodaeth yn hawdd ei deall i rieni?

- Yw'r wybodaeth yn gyfoes?
- Pa mor aml mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno?
- Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno? Ym mha gyfrwng?

- Yw'r sefydliad yn sicrhau bod y bobl ifanc yn deall?

Pa dystiolaeth fyddai ei hangen arnoch?

- Cofnodion o'r cyfarfodydd
- Copïau o wybodaeth a anfonir allan

- Cyfweiliadau gyda phobl ifanc

PARATOI AR GYFER AROLWG

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnwch i'r grŵp feddwl am wahanol fathau o sefydliadau i bobl ifanc.

Rhannwch nhw'n grwpiau o dri a gofynnwch i bob grŵp ddewis un math o sefydliad.

Rhowch daflen wedi'i rhannu'n chwech adran i bob grŵp.

Beth mae eich gwasanaeth yn ei wneud?	Pwy sy'n ei ddefnyddio?	Beth sydd angen iddo ei wneud i ddiwallu'r safon hon?	Beth mae'n ei wneud i ddiwallu'r safon hon?
Beth arall sydd angen i chi ei wybod i sicrhau ei fod yn diwallu'r safon?		Sut ydych chi'n mynd i gael gwybod hyn?	

Rhowch safon wahanol i bob grŵp a gofynnwch iddynt lenwi'r pedair adran gyntaf gan feddwl am sefydliad dychmygol ond realistig yn hytrach nag ysgrifennu am un maen nhw eisoes yn gwybod amdano. Yna gofynnwch i'r grwpiau gyfenwid taflenni. Dylent ddarllen trwy'r disgrifiad o'r gwasanaeth a'r hyn sydd wedi'i wneud i ddiwallu'r Safon.

Dylent lenwi'r bedwaredd a'r pumed adran o'r daflen newydd. Ystyriwch beth arall fyddai angen i chi ei wybod cyn gallu bod yn hyderus y byddai'r sefydliad yn diwallu'r safon a sut y byddent yn cael gwybod hynny.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
35 munud	Paratoi ar gyfer arolwg	Cynllunio ar gyfer arolwg, beth sydd angen ei wneud, pwy sydd angen gwneud beth	Safonau, Pennau, Siart troi

PARATOI AR GYFER AROLWG

(PARHAD)

Wrth gael trafodaeth a chael gwybodaeth, amlygwch fod y gweithgaredd hwn yn debyg i'r broses hunan- arolygu. Bydd ganddynt ryw faint o wybodaeth am y sefydliad cyn iddynt fynd ond bydd rhaid iddynt feddwl am yr hyn y bydd angen iddynt ei ofyn i lenwi unrhyw fylchau. Dyma enghraifft-

Beth mae eich gwasanaeth yn ei wneud? Clwb leuenctid	Pwy sy'n ei ddefnyddio? Pobl ifanc rhwng 12 a 15 oed yng Nghaerdydd	Beth sydd angen iddo ei wneud i ddiwallu'r safon hon? Gwybodaeth – digon o wybodaeth i gymryd rhan, rhoi gwybod i bobl y gwahaniaeth a wnaiff. Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau	Beth mae'n ei wneud i ddiwallu'r safon hon? Diweddariadau ar y wefan, cylchlythyr, Facebook, Twitter a negeseuon testun, y mae pobl ifanc yn helpu i'w hysgrifennu, hysbysfyrddau a chyfarfodydd
Beth arall sydd angen i chi ei wybod i sicrhau ei fod yn diwallu'r safon? Beth mae pobl ifanc yn ei feddwl am y wybodaeth a gânt? Pa mor hawdd ei deall yw'r wybodaeth i bobl ifanc? Pa mor ddiweddar yw popeth?		Sut ydych chi'n mynd i gael gwybod hyn? Siarad â phobl ifanc. Gwirio dyddiadau ar gylchlythyrau, gwefannau ac ati.	

STORI JIG-SO LLINELL AMSER AROLWG

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhowch adran o'r llinell amser jig-so i bob aelod o'r grŵp. Gofynnwch iddynt weithio fel tîm i roi'r adrannau yn y drefn gywir.

Os oes problemau gyda llythrennedd rhowch y bobl ifanc mewn parau cyn dosbarthu'r adrannau gan sicrhau bod o leiaf un person ifanc ym mhob pâr yn hyderus yn darllen.

Ar ôl i'r grŵp gytuno ar drefn, gwiriwch y drefn honno yn erbyn eich copi meistr gan aildrefnu os oes angen, gan esbonio pam.

Trafodwch y broses gyda'r grŵp. Gofynnwch beth maen nhw'n ei feddwl am yr holl broses, a oes unrhyw beth annisgwyl, ac unrhyw beth y maen nhw'n bryderus yn ei gylch.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Jig-so Arolwg	Cyfarwyddo ag amserlen arolwg.	Copi meistr, Jig-so, Pennau, Siart troi

STORI JIG-SO LLINELL AMSER AROLWG (PARHAD)

STORI JIG-SO LLINELL AMSER AROLWG

Bydd pobl ifanc yn mynychu rhaglen hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddysgu amryw sgiliau a gwybodaeth er mwyn gallu cynnal arolygon yn ddiogel a hyderus.

Gellir cynnal yr hyfforddiant fel un preswyl neu dros nifer o wythnosau.

Bydd sefydliadau sydd am sicrhau eu bod yn diwallu'r Safonau Cyfranogi ac yn ennill y Nod Barcud Safonau Cyfranogi yn cwblhau hunanasesiad.

Os yw'r hunanasesiad yn dangos bod gan y sefydliad ddigon o dystiolaeth i ddangos ei fod yn diwallu'r holl Safonau bydd grŵp o arolygwyr ifanc yn ymweld i edrych ar y dystiolaeth a phenderfynu p'un a ellid rhoi nod barcud ai peidio.

Gan weithio mewn timau bach, bydd y bobl ifanc yn ymweld â'r gwasanaeth.

Yn ystod yr ymweliad byddant yn gwneud arsylwadau yn erbyn y Safonau.

Dyma'r 7 safon;

- Gwybodaeth
- Eich dewis chi
- Dim gwahaniaethu
- Parch
- Rydych chi'n elwa
- Adborth
- Gwella sut rydyn ni'n gweithio

Yn ystod yr ymweliadau arolygu, bydd yr arolygydd ifanc yn llenwi ffurflenni gan gofnodi cynnydd y sefydliad yn erbyn y Safonau, a fydd yn ei helpu i benderfynu p'un a ddylid rhoi Nod Barcud Cyfranogi Cenedlaethol ai peidio.

Gallai'r arolygwyr ifanc gyfweld â gweithwyr, gwirfoddolwyr neu bobl ifanc; neu gallant ffilmio neu dynnu lluniau o'r lleoliad lle mae'r sefydliad yn gweithio. Gallant edrych ar bolisiau, gweithdrefnau, taflenni, gwefannau neu ddarnau eraill o wybodaeth.

Cyn gynted â phosibl ar ôl yr arolwg bydd yr arolygwyr ifanc, gyda chefnogaeth eu gweithwyr, yn cwblhau adroddiad a phenderfynu p'un a ellir rhoi nod barcud ai peidio.

Os nad ellir rhoi nod barcud caiff cynllun gweithredu ei greu yn dangos pa newidiadau fyddai angen eu gwneud i allu rhoi nod barcud.

Caiff yr adroddiad a'r cynllun gweithredu (os oes angen) eu rhoi i'r sefydliad.

Dylai'r sefydliad roi gwybod i'r arolygwyr ifanc sut a phryd y byddant yn rhoi'r argymhellion yn y cynllun gweithredu ar waith.

RÔL AROLYGYDD IFANC

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhannwch y grŵp yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhwch ddarn mawr o bapur i bob grŵp; darn sy'n ddigon mawr i un person orwedd arno ac i un arall dynnu llinell o'i amgylch. Gallech ddefnyddio cwpl o ddarnau o bapur wal neu bedwar darn o bapur o'r siart troi wedi'u rhoi at ei gilydd gyda thâp masgio.

Byddai'n syniad da gadael i'r person benderfynu pwy sy'n tynnu llinell o'i amgylch.

Rhowch y 'disgrifiad o Rôl yr Arolygydd Ifanc' i bob grŵp gan ofyn iddynt ei drafod yn eu grwpiau ac ysgrifennu ar yr amlinelliad y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen i fod yn arolygydd ifanc.

Rhowch bum smotyn gludiog i bob cyfranogwr a gofynnwch iddynt eu rhoi wrth ymyl y sgiliau neu'r rhinweddau pwysicaf yn eu barn nhw. Nid oes rhaid gwneud y penderfyniad hwn fel grŵp. Gall pob unigolyn bleidleisio am ei ddewisiadau ei hun.

Yna o'r tu blaen casglwch y sgiliau a'r rhinweddau sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau, ac ysgrifennwch nhw yn eu trefn o ran pa mor bwysig ydyn nhw ym marn y grŵp (h.y. nifer uchaf o smotiau). Mae'n debygol y bydd pob grŵp bach yn rhoi ymatebion tebyg.

Gofynnwch i'r grŵp roi sylwadau ar y rhestr. Ydyn nhw'n hapus â hi? Oes unrhyw beth pwysig na soniwyd amdano? Oes unrhyw beth arall nad ydynt yn siŵr ohono?

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Rôl arolygydd ifanc	Meddylwch am y rhinweddau a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn arolygydd ifanc	Disgrifiad o rôl, arolygydd, Pennau, Siart troi/papur wal, Smotiau gludiog

YSTYRIED SGILIAU PERSONOL

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

howch daflen sêr i'r holl gyfranogwyr. Gofynnwch iddynt ddewis rhai o'r sgiliau ar y bwrdd (o weithgaredd 'rôl yr arolygwyr'). Dylent ddewis o leiaf bedwar a sgorio'u hunain o ran pa mor dda y maen nhw'n eu gwneud nhw. Ar gyfer grwpiau â phroblemau llythrennedd gallwch lenwi'r sgiliau ymlaen llaw. Anogwch y grŵp i ddewis rhai sgiliau y maen nhw'n hyderus ynddynt a rhai nad ydynt mor hyderus ynddynt.

Mewn paru gofynnwch i'r grwpiau drafod pa sgiliau maen nhw'n hyderus ynddynt, sut y gallant fod yn ddefnyddiol fel arolygydd ifanc a pha feysydd yr hoffon nhw weithio arnynt. Sicrhewch eu bod yn cysylltu'r rhain â'u rôl fel arolygydd ifanc.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
25 munud	Ystyried Sgiliau Personol	Dechrau meddwl am eu sgiliau a'u rhinweddau personol eu hunain y gallant eu defnyddio fel rhan o dîm o arolygwyr ifanc	Taflen sêr, Pennau

YSTYRIED SGILIAU PERSONOL (PARHAD)

Personal Skills Audit – Stars sheet

Name

Please rate yourself from 0 (poor) - 5 (great) on the following skills and knowledge by colouring in the right number of stars.

	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆
	☆	☆	☆	☆	☆

What skill could you develop and how could you develop it?

AROLOGYWYR IFANC GWEITHGAREDD 18

GWRTHRYCHAU

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnir i bob person ddychmygu gwrthrych y gallai ei gario'n hawdd o amgylch yr ystafell.

Bydd yr hwyluswr yn ysgrifennu pob un ar y siart troi. Bydd pawb yn meimio'r weithred o gario'r gwrthrych.

Gofynnwch i'r grŵp gyfnewid eitemau dychmygol gyda pherson arall ac yna i gyfnewid y gwrthrych newydd gyda pherson arall. Dylai pob cyfranogwr gyfnewid o leiaf 7 gwaith.

Ar ôl ychydig funudau stopiwch y grŵp gan ofyn i bawb gofio pa eitem sydd ganddynt, ac ewch o gwmpas yr ystafell yn gofyn i bawb yn unigol ddweud pa eitem sydd ganddynt. Ticiwch yr eitem oddi ar y rhestr wreiddiol wrth iddi gael ei galw.

Bydd rhai gwrthrychau wedi lluosogi a rhai wedi diflannu'n gyfan gwbl.

Gofynnwch i'r grŵp pam eu bod nhw'n meddwl bod hyn wedi digwydd. Beth oedd yn

anodd? Esboniwch fod hyn yn rhywbeth sy'n digwydd yn y gêm hon a gofynnwch iddynt beth allai fod wedi gwneud y gêm yn haws.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Gwrthrychau	Fel arolygwyr ifanc gallant fod mewn amgylcheddau prysur a swnllyd a bydd angen iddynt gofio llawer o wybodaeth. Bydd y gêm hon yn dangos pa mor bwysig yw gwneud nodiadau a chofio llawer o wybodaeth	Pennau, Siart troi

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 19

PASIO'R LLUN

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Trefnwch ddigon o linellau o gadeiriau, un y tu ôl i'r llall, i'r grŵp eistedd arnynt mewn llinellau o bedwar neu bump.

Rhowch glipfwrdd, pen a phapur i'r rhai ar ben pob rhes.

Cymerwch y bobl ar flaen pob rhes i'r ochr a dangoswch lun iddynt. Rhowch funud

iddynt edrych arno, neu defnyddiwch amserydd i ychwanegu tensiwn.

Yna esboniwch i'r grŵp cyfan y bydd y bobl ar flaen y rhes, drwy sibrwd, yn rhoi disgrifiad mor fanwl â phosibl i'r person y tu ôl iddynt. Bydd y person hwnnw'n sibrwd i'r person y tu ôl iddo ef ac yn y blaen nes i'r disgrifiad gyrraedd y rhes gefn. Yna bydd y person gyda'r clipfwrdd yn ceisio tynnu llun o'r hyn a ddywedwyd.

Cymharwch y lluniau gyda'r rhai gwreiddiol a rhowch bwyntiau am y copi agosaf.

Trafodwch yr heriau sydd ynghlwm wrth y gêm hon a sut y gall gwybodaeth fynd ar goll. Esboniwch sut y gellir cysylltu'r gêm hon â'r broses arolygu a phwysleiswch y gwersi a ddysgwyd.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Pasio'r Llun	Bydd y gêm hon yn dangos sut y gall gwybodaeth fynd ar goll neu gael ei newid trwy gyfathrebu gan ei bod yn cael ei phasio trwy amryw ffynonellau.	Pennau, Papur, Clipfwrdd, Syniadau o luniau

GWRANDO GWEITHREDOL

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnwch i'r grŵp feddwl am syniadau yr hoffon nhw siarad amdanynt.

Mewn parau, rhowch bwnc i un person ifanc siarad amdano o'r rhestr, neu gadewch iddo ddewis pwnc.

Rhowch gerdyn rhwystr i'w bartner. Rhowch dair munud i'r parau er mwyn i un siarad a'r llall i ddangos yr ymddygiad ar y cerdyn rhwystr, e.e. dechreuwch ddylfu gen yn barhaus ac edrych ar eich oriau, ceisiwch newid y pwnc yn barhaus.

Yna newidiwch y rolau gan roi rhwystr newydd a phwnc newydd i bob pâr siarad amdano.

Gofynnwch i'r grŵp sut deimlad oedd siarad a neb yn gwranddo a gofynnwch iddynt feddwl am bethau sy'n eich helpu chi i deimlo fel bod rhywun yn gwranddo arnoch. Gall hyn gynnwys nodio, cyswllt llygad, cydnabod yr hyn mae rhywun yn ei ddweud.

Yna ailadroddwch y gweithgaredd uchod gan ofyn i'r bobl ifanc ddangos ymddygiad gwranddo cadarnhaol yn hytrach na'r rhwystrau.

Trafodwch y gwahaniaethau.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
15 munud	Gwranddo Gweithgredol	Pobl ifanc i nodi'r gwahaniaethau a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chael rhywun yn gwranddo arnynt ac fel arall	Cerdyn rhwystr

GWRANDO GWEITHREDOL

(PARHAD)

CARDIAU RHWYSTR GWRANDO

Dechreuwch ddylyfu gên, rhwbio'r llygaid ac ymestyn fel pe baech wedi blino	Ar bob cyfle dywedwch 'o ydw / rwy'n gwybod / rwy'n meddwl hynny hefyd'	Anfonwch gymaint o negeseuon testun ag y gallwch	Ceisiwch newid y pwnc yn barhaus
Osgowch unrhyw gyswllt llygad	Dywedwch 'wir?' gan esgus nad ydych yn ei gredu, gymaint â phosibl	Rhythwch ar y person heb ddweud unrhyw beth	Edrychwch ar yr amser yn gyson gan edrych o'ch cwmpas fel pe baech yn awyddus iawn i hyn ddod i ben
Dechreuwch sibrwd sgwrs arall gyda rhywun arall gerllaw	Ewch i ôl pen a phapur gan ysgrifennu wrth i'r person siarad heb edrych arno o gwbl. Peidiwch â gadael iddo weld beth rydych yn ei ysgrifennu	Cymerwch fwy o ddiddordeb mewn hysbysfwrdd neu edrychwch drwy'r ffenestr	

Y DREFN ARCHWYLIO

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhannwch y grŵp yn dri grŵp bach a rhowch adran o'r 'drefn archwilio' o bennod dau y canllaw archwilio i bob un. Rhowch ddigon o amser iddynt, yn eu grwpiau, i ddarllen, cofio a deall y wybodaeth a meddwl am ffordd greadigol a defnyddiol o gyflwyno'r wybodaeth i weddill y grŵp a fydd yn sicrhau y byddant yn cofio a deall

y wybodaeth. Gallant greu cyflwyniad a thaflenni, drama, cân, posteri, gêm neu weithgaredd. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn rhannu'r holl wybodaeth a bod y wybodaeth a rennir yn gofiadwy.

Gofynnwch iddynt gyflwyno'r wybodaeth i grwpiau eraill.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
1 awr	Y Drefn Archwilio	Meddwl am arddulliau cyflwyno, rhannu gwybodaeth mewn modd cyfeillgar.	Pennau, Papur, Pennod dau y canllaw archwilio

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 22

PENDANTRWYDD

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnwch i'r grŵp beth yw pendantrwydd yn eu barn nhw a cheisiwch greu diffiniad ar y cyd.

Esboniwch fod pendantrwydd rhwng bod yn rhy oddefgar a rhy ymosodol; efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn i'r grŵp ddiffinio pob un o'r tri therm.

Gwnewch linell gan roi 'goddefgar' ar un pen, 'ymosodol' ar y llall a 'phendantrwydd' yn y canol.

Dosbarthwch y cardiau datganiad i'r grŵp a gofynnwch iddynt eu rhoi ar y llinell yn ôl pa mor oddefgar neu ymosodol ydyn nhw. Gellir defnyddio'r llinell gyfan, e.e. weithiau, gall rhywbeth fod yn oddefgar iawn neu'n eithaf goddefgar.

Anogwch y grŵp i drafod y safleoedd ar y llinell.

Yna gofynnwch iddynt gymryd rhai o'r datganiadau goddefgar neu ymosodol a'u haralleirio i'w newid yn ddatganiadau pendant.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Pendantrwydd	Ystyried a deall y gwahaniaethau rhwng pendantrwydd a bod yn oddefgar ac ymosodol.	Cardiau datganiad

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 22

PENDANTRWYDD

(PARHAD)

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

CARDIAU DATGANIAD GODDEFGAR/PENDANT/YMOSODOL

Mae'r ffordd rydych yn gwneud hynny'n gwbl anghywir	Rhowch y gorau iddi nawr	Ni allaf oddef hynny	Pan fyddi di'n gwneud hynny, rwy'n teimlo'n anghyffyrddus oherwydd...
Rwy'n bryderus ynghylch hynny oherwydd...	Allwn ni roi cynnig ar hyn yn lle?	Dylai rhywun heblaw amdanaf i ddewis	Rwy'n meddwl y dylen ni wneud hyn ond mae'n iawn os nad ydych yn cytuno
Dydw i ddim am ddweud beth rwy'n ei feddwl	Beth mae pawb arall eisiau ei wneud?		

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 23

HOLI OEDOLION

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhowch ddarnau bach hirsgwar o bapur i'r grŵp a gofynnwch iddynt, mewn grwpiau bach, i nodi cymaint o rwystrau ag y gallant feddwl amdanynt wrth holi oedolion. Cofiwch eu hatgoffa bod yn rhaid i'r drefn archwilio fod yn gadarn a bod rhaid iddynt fod yn hyderus bod yr oedolyn wedi rhoi tystiolaeth ddigonol a chredadwy iddynt.

Gofynnwch iddynt ysgrifennu un rhwystr ar bob darn o bapur. Casglwch y taflenni ynghyd a'u rhoi mewn llinell i greu 'wal'. Adolygwch y problemau sydd wedi'u codi gan nodi unrhyw problemau tebyg; rhowch gyfle i'r grŵp esbonio pam eu bod yn meddwl bod y rhain yn problem.

Os oes mwy o awgrymiadau nag sydd o aelodau yn y grŵp, rhowch dri dot gludiog i bawb yn y grŵp i nodi pa broblemau sydd bwysicaf yn eu barn nhw. Symudwch unrhyw rai sydd heb ddotiau a'r rhai â'r lleiaf o ddotiau nes bod digon o daflenni i ddosbarthu un yr un neu un rhwng dau.

Mewn parau gofynnwch i'r grŵp ddewis taflen. Yna dylent ei thrafod mewn parau gan weithio allan yr hyn a allai helpu neu ddatrys y problemau. Ar ôl ychydig funudau gofynnwch i'r parau newid fel bod pob person yn siarad â phartner newydd a thrafodwch y broblem eto, gan nodi datrysiadau.

Ailadroddwch y broses ychydig o weithiau a chofnodwch y datrysiadau mwyaf defnyddiol y mae pobl wedi'u canfod.

Gellir gwneud hyn ar siart troi o'r tu blaen. Rhowch y cwestiynau i'r grŵp a thrafodwch.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
25 munud	Holi oedolion	Y bobl ifanc i ystyried y rhwystrau posibl a allai godi wrth ofyn cwestiynau i oedolion yn ystod y broses archwilio	Darnau bach o bapur, Pennau, Siart troi

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 24

HUNANASESIAD

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Atgoffwch y grŵp o'r drefn hunanasesu.

Mewn grwpiau bach gofynnwch iddynt gwblhau hunanasesiad ar gyfer sefydliad o'u dewis. Gallant ddewis y sefydliad sy'n eu hyfforddi fel arolygwyr ifanc neu unrhyw un arall y mae ganddynt wybodaeth amdano, fel ysgol, coleg, grŵp ieuenctid.

Trafodwch y drefn fel grŵp cyfan. Beth oedden nhw'n ei feddwl o'r hunanasesiad, oedden nhw'n meddwl ei fod yn hawdd neu'n anodd ei wneud, sut maen nhw'n meddwl fydd sefydliadau'n teimlo am ei gwblhau?

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
35 min	Self assessment	Giving them an insight in to what the organisation would need to do to fill out a self assessment	Cynlluniwch daflenni hunanasesu, Pennau, Rhywfaint o wybodaeth am y sefydliad a ddewiswch fel esiampl



Archwiliad Safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cenedlaethol



Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae saith
Safon Cyfranogiad
Genedlaethol i helpu
sefydliadau ac unigolion i
sicrhau bod proses, ansawdd
a phrofiad unrhyw
gyfranogiad yn dda i blant a
phobl ifanc

Cynnwys

Cefndir	3
Y Siarter	4
Poster Safonau	5
Datganiad Siarter	6
Holiadur	7
Amserlen	8
Nod barcod	8
Y broses	9
Enghreifftiau o dystiolaeth	10
Hunanasesu	13



Cefndir

Datblygwyd y Safonau Cyfranogiad gan yr Undeb Cyfranogiad yn wreiddiol. Maent wedi'u hadnewyddu erbyn hyn gan weithwyr Cymru Ifanc a'r Fforwm Ieuentid, a lywiwyd gan ymgynghoriadau â phobl ifanc. Cefnogwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru a nododd rôl y Safonau Cyfranogiad mewn canllawiau statudol.

Mae'r Safonau Cyfranogiad yn nodi materion allweddol y dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Adolygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Safonau Cyfranogiad bob un o'r saith safon gan sicrhau bod pob un yn adlewyrchu'r ethos yn seiliedig ar hawliau sy'n rhan annatod o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ateir y safonau hefyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfranogiad plant a phobl ifanc, oedolion a chymunedau wrth wraidd gwella lles, yn ogystal â bod yn un o'r pum ffordd o weithio.

- Mae canllawiau'r Ddeddf 'Rhannu pwrpas: Rhannu Dyfodol' yn cyfeirio'n benodol at Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
- Mae canllawiau'r Ddeddf ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r disgwyliad y byddant yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wrth weithio gyda'u partneriaid, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gael llais.

Nid disgwyliadau newydd mo'r rhain. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan ers pasio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn 2010, ac mae'r canllawiau statudol wedi bod mewn grym ers 2012. Ymwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru â phob Awdurdod Lleol er mwyn deall sut yr oedd y canllawiau statudol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn rhannu arfer da.

Mae Cymru Ifanc a Phlant yng Nghymru wedi gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad gyda phob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Y Siarter

Yn ystod 2017 mae Cymru Ifanc wedi bod yn gweithio ar ddau faes:

1. Adnewyddu'r broses nod barcud ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n cynnal arolygiadau
2. Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol newydd a fydd yn tynnu sylw at arferion cyfranogiad lleol ac yn cipio gwybodaeth sy'n ategu'r broses o adrodd ar Gynlluniau Lles priodol yn y dyfodol

Mae sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc bellach yn gallu gwneud cais am Siarter Cyfranogiad gan Gymru Ifanc i arddangos yn eu cyfleusterau. Bydd y broses gofrestru yn cynnwys ymrwymiad i alluogi Aelodau lleol y fforwm ieuenctid ymweld â'r lleoliad i gynnal arolygiad byr, yn seiliedig ar y safonau cyfranogiad.

Unwaith y flwyddyn, bydd Cymru Ifanc yn rhoi gwybod i bob fforwm ieuenctid pa sefydliadau lleol sydd wedi ymrwymo i'r Siarter.

Canllawiau Siarter

Defnyddir y Siarter gan sefydliadau a gwasanaethau i ddangos eu hymrwymiad i'r Safonau Cyfranogiad. Mae'n ddatganiad o fwriad eu bod yn gweithio yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Fodd bynnag, rhaid iddynt gyflawni'r Nod Barcud Cenedlaethol er mwyn defnyddio ei logo.

Ar ôl llofnodi'r Siarter, bydd eich sefydliad neu'ch gwasanaeth yn cael ei restru ar fap siarter gwefan Plant yng Nghymru, Cymru Ifanc. Bydd eich manylion hefyd yn cael eu rhannu â thimau nod barcud lleol a fydd, o bosibl, yn gallu cynnig cymorth a chynghor pellach i chi.



Sylwer: nid Llywodraeth Cymru sy'n llofnodi'r Siarter, ac nid yw'r siarter yn disodli'r nod barcud cydnabyddedig.

I gwblhau'r Siarter hon, a wnewch chi lenwi'r holiadur isod.

Cynhelir archwiliad sampl bob blwyddyn gyda rhai o'r sefydliadau er mwyn dangos cydymffurfiaeth. Mae'r Siarter yn para am uchafswm o 2 flynedd a bydd sefydliadau yn cael ailymgeisio am y Siarter. Anogir sefydliadau hefyd i ystyried cofrestru ar gyfer nod barcud y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Ategir y Siarter hon gan dair colofn y CCUHP - Diogelu, Darparu a Chyfrannu.

Mae'r Siarter hon yn seiliedig ar y Safonau Cyfranogiad



Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc

Children and Young People's National Participation Standards

"Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i'w barn"

Erthygl 12: Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"

Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)

Mae hyn yn golygu:	Byddwn ni:	This means:	We will:
- Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus. - Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.	- Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati. - Yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud.	1 Gwybodaeth Information You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision.	- Provide information that is good quality, clear and accessible. - Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make.
Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.	- Yn herio gwahaniaethu. - Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.	2 Chi biau'r dewis It's your choice Children and young people are all different and have the right to be treated fairly.	Give you enough support and time to choose if you want to get involved.
Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiffri. - Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.	3 Dim gwahaniaethu No discrimination You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected.	- Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously. - Work with you on things you say are important. - Value what you have to offer.
- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod. - Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth. - Rydyn ni eisio i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiffri. - Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.	4 Parch Respect - You have the right to learn and be the best you can be. - You will have opportunities to work with others and make a difference. - We want you to be involved in positive experiences.	- Challenge discrimination. - Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people.
- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod. - Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth. - Rydyn ni eisio i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiffri. - Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.	5 Bod ar eich ennill You get something out of it You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to.	- Work with you in safe, fun and enjoyable ways. - Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills.
- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod. - Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth. - Rydyn ni eisio i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiffri. - Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.	6 Adborth Feedback Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.	- Always ensure you have feedback in an agreed time. - Tell you how your ideas have been used and why. - Tell you what happens next.
- Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod. - Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth. - Rydyn ni eisio i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiffri. - Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig. - Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.	7 Gweithio'n well drosoch chi Working better for you Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.	- Work with you and learn how we can do things better. - Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions.

Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogi
The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation





Siarter Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc

yng Nghymru

Ar ran y sefydliad mae'r llofnodwyr isod yn cytuno i'r canlynol:

CYFRANOGI

Fel sefydliad, byddwn yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu profiad o safon i bobl ifanc.

DIOGELU

Fel sefydliad, byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd ddiogel a phleserus gyda phobl ifanc yn unol â deddfwriaeth ac arferion recriwtio dioge

DARPARU

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon sy'n cael ei siapio gan farn pobl ifanc ac sy'n adlewyrchu eu hanghenion.

Llofnodwyd gan y staff...

Llofnodwyd gan berson(au) ifanc ...

Enw'r Sefydliad:



Holiadur

Beth yw enw eich gwasanaeth?

Ym mha Sir y mae eich darpariaeth yn gweithredu?

Beth yr ydych wedi'i wneud fel gwasanaeth ers llofnodi'r Siarter i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i staff a phobl ifanc?

Fel gwasanaeth, pa arferion gwaith diogel yr ydych wedi eu hadolygu ers ymuno â'r Siarter? E.e. polisiau diogelu, polisiau diogelu dynodedig?

Pa brosesau y mae eich gwasanaeth wedi'u defnyddio sy'n galluogi pobl ifanc i lywio cynlluniau a darparu gwasanaethau ers llofnodi'r Siarter?

Nod barcud

Diben y Nod barcud a'r arolygiadau

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i fonitro effeithiolrwydd y gwaith o ddatblygu cyfranogiad ieuenctid o fewn eu sefydliadau. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau. Mae'r Nod Barcud Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Dyfernir tystysgrif (sy'n ddilys am 4 blynedd) i wasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn cyflawni yn erbyn pob un o'r saith Safon Genedlaethol. Fodd bynnag, os na fydd sefydliad yn pasio'r arolygiad, bydd yn cael adborth gydag argymhellion sy'n manylu ar ei feysydd o arfer da, a'i flaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Y Broses

Gellir defnyddio hunanasesu yn fewnol fel offeryn datblygiadol i fesur arferion cyfranogol. Cyn cwblhau'r hunanasesiad, bydd yn rhaid i sefydliadau lofnodi'r Siarter yn y llyfryn hwn.

Mae'n rhaid i bob sefydliad ddarparu o leiaf dri darn o dystiolaeth i bob safon, gan amlygu gwaith sydd wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Gellir gweld enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth ar y tudalennau canlynol. Mae'n rhaid graddio pob safon gan ddefnyddio'r allwedd:

Bwriadu - rydych wedi nodi maes y mae angen ei wella

Datblygu - rydych chi'n gweithio ar hyn o bryd tuag at wella'r maes a nodwyd

Cyflawni - rydych wedi cyflawni neu yn cyflawni yn y maes hwn.


i Sylwer: er mwyn gwneud cais am y Nod Barcud, rhaid i chi fod yn cyrraedd pob safon ac ymrwymo i'r Siarter.

Gallwch gysylltu â'ch Tîm Arolygwyr Ifanc lleol i gael rhagor o wybodaeth neu i ddechrau'r broses Nod Barcud. Gallwch ddod o hyd i'ch tîm arolygwyr lleol ar wefan Plant yng Nghymru.



Y Broses

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru ac Awdurdodau Lleol hyrwyddo'r safonau ym mhob sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Caiff hyn ei gydgyssylltu a'i reoli gan gynghorau ieuenctid statudol neu fforymau.



i Gall sefydliadu wneud cais am Arolygiad Nod Barcud eto ar ôl tair blynedd.

Enghreifftiau o Dystiolaeth

Enghreifftiau o dystiolaeth y gellir ei chyflwyno – nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

Gwybodaeth

Byddwn yn rhoi gwybodaeth sydd o ansawdd dda, yn glir ac yn hygyrch.

- Gwybodaeth briodol i oedran a chyfredol sy'n cael ei harddangos ac sydd ar gael yn ddwyieithog neu mewn fformatau eraill yn ôl y gofyn e.e. Braille, gwybodaeth a rennir drwy e-bost, negeseuon testun, cyfryngau cymdeithasol, ac ati.
- Gwybodaeth sydd wedi'i chynhyrchu gan bobl ifanc
- Enghreifftiau o geisiadau am wybodaeth benodol sydd wedi'u cyflawni.

Byddwn yn rhoi gwybod i bobl ifanc pwy fydd yn gwrando a rhoi gwybod i chi pa wahaniaeth all eich cyfranogiad ei wneud.

- Cofnodion cyfarfodydd lle roedd pobl ifanc yn cymryd rhan a thystiolaeth bod y rhain yn cael eu rhannu mewn amrywiaeth o ffyrdd
- Defnyddio ffurflen brotocol, ffurflenni adborth, holiaduron am brofiad cyfranogwyr
- Dangos tystiolaeth o sut y gall pobl ifanc ddylanwadu ar y modd y mae'r ddarpariaeth yn cael ei rhedeg e.e. ceisiadau am gyllid penodol, prosiectau ac ati.
- Mae blychau awgrymiadau ar gael ac mae'r gweithdrefnau cwyno ac adborth yn hygyrch i bobl ifanc.

Chi Biau'r Dewis

Byddwn yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i ddewis p'un a hoffech chi gymryd rhan.

- Llythyrau, negeseuon testun, calendr digwyddiadau
- Tystiolaeth bod pobl ifanc yn cael amser i gymryd rhan, yn cael gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniad. Tystiolaeth bod arfer gorau yn gorbwyso arferion ad-hoc ac yn osgoi symboleiddiaeth
- Astudiaeth achos neu enghraifft lle newidiwyd y ddarpariaeth i gynnwys rhywun mewn amgylchiadau eithriadol, sydd ag angen ychwanegol neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Dim Gwahaniaethu

Byddwn yn herio gwahaniaethu.

- Sut y mae staff, gwirfoddolwyr a phobl ifanc yn dangos ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal
- Enghreifftiau o sut mae'r ddarpariaeth yn dathlu gwahaniaeth, yn hyrwyddo cynwysoldeb ac amrywiaeth, polisi a gweithdrefn gwrth-fwllo
- Calendr o ddigwyddiadau sy'n darparu gwelededd, codi ymwybyddiaeth a dathlu gwahaniaeth (nodweddion gwarchodedig)
- Tystiolaeth gan bobl ifanc pan oedd staff yn herio gwahaniaethu
- Cod ymddygiad a luniwyd gan bobl ifanc, sy'n defnyddio'r

Parch

Byddwn yn gwrandao ar eich barn, eich profiad a'ch syniadau ac yn eich cymryd o ddifrif.

- Mae fforwm pobl ifanc yn bresennol sy'n gynhwysol, yn gynrychioliadol (o bosibl wedi'i ethol) ac yn amrywiol lle y bo'n bosibl
- Blychau awgrymiadau, ffurflenni adborth
- Datganiad cenhadaeth a chylch gorchwyl clir ar sut mae'r grŵp yn gweithio, e.e.
 - Parchu llais pobl ac annog ystod eang o leisiau i gymryd rhan, gofyn i bobl ifanc a ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu parchu ac a ydyn nhw'n teimlo y gallan nhw ei herio?
 - A oes arwyddion clir o berthynas gadarnhaol rhwng staff a phobl ifanc?
 - A yw pobl yn deall eu rolau a'u ffiniau?
 - A yw pobl ifanc yn teimlo wedi eu grymuso?
 - A yw pobl ifanc yn teimlo bod ganddynt unrhyw gyfrifoldebau yn y ddarpariaeth?
 - A yw pobl ifanc yn ymwneud ag unrhyw reolwyr neu is-grwpiau yn y project/sefydliad?
 - A yw pobl yn ymwybodol o hawliau plant (CCUHP)?
 - Sut mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod pob person ifanc; hyd yn oed y rhai sy'n llai ymroddedig neu'n barod i fynegi barn, yn teimlo bod y sefydliad yn eu cynrychioli ac yn parchu eu barn?
- Tystiolaeth o bolisi drws agored
- Tystiolaeth o gadw cyfrinachedd ac ymddiriedaeth rhwng staff a phobl ifanc lle bo'n briodol.

Byddwn yn gweithio gyda chi ar bethau sy'n bwysig yn eich barn chi.

- Tystiolaeth o ymgynghoriadau a phrojectau a bod adborth wedi'i roi'n brydlon a chanlyniadau mesuradwy lle y bo'n briodol
- Tystiolaeth bod gwaith wedi'i deilwra i anghenion pobl ifanc.

Byddwn yn gwerthfawrogi'r hyn sydd gennych i'w gynnig.

- Teilwra'r cymorth sydd ar gael fel y gall pob cyfranogwr gyflawni a chyrchu cyfleoedd yn unol â'i hawliau a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol
- A yw pobl ifanc yn teimlo bod y ddarpariaeth wedi datblygu i gyd-fynd â'u hanghenion?
- A yw staff yn cydnabod lle y dechreuodd pobl ac i ba raddau y maent wedi teithio hyd yma – a allant roi enghraifft fel astudiaeth achos?
- A yw pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi hyd yn oed os nad ydynt yn chwarae rhan weithredol mewn agwedd fesuradwy o'r ddarpariaeth, e.e. fforymau?

Cael Rhywbeth Allan Ohono

Byddwn yn gweithio gyda chi mewn ffyrdd diogel, hwyliog a dymunol.

- Asesiadau risg priodol ar waith
- Mae staff a phobl ifanc yn ymwybodol o'r holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol
- Mae gwerthusiadau yn dangos y gofynnir i bobl ifanc a ydynt yn cael hwyl ac yn mwynhau'r ddarpariaeth.

Byddwn yn manteisio ar yr hyn rydych yn ei wybod a gwneud pethau i adeiladu eich hyder a sgiliau.

- A yw pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain oherwydd eu bod yn gweithio gyda'r sefydliad?
- Achrediad a thystysgrifau sy'n adlewyrchu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth
- Ystod o weithgareddau y mae pobl ifanc wedi cael lleisio barn arnynt
- Gwobrau, tystiolaeth o'r pellter a deithiwyd, profiadau cymdeithasol.

Adborth

Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael adborth o fewn amserlen y cytunwyd arni.

- Mae staff yn gallu dangos proses glir pan ymgynghorwyd â phobl ifanc, cymerwyd camau, dywedwyd wrth bobl ifanc, ac mae hyn yn digwydd yn rheolaidd
- Mae staff yn darparu enghreifftiau/prawf o sut mae adborth yn cael ei rannu; yn ddelfrydol, yn cyflogi gwahanol ddulliau o ddsbarthu fel cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, negeseuon testun, ac ati.

Byddwn yn dweud wrthyh sut mae eich syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.

- Cyfleu'r rhain mewn amrywiaeth o ffyrdd wedi'u cofnodi, e.e. cofnodion, negeseuon e-bost, bwrdd arddangos, ac ati.
- Gofyn i bobl ifanc am eu profiadau gydag ymgynghoriadau:
 - A yw pobl ifanc yn teimlo bod eu syniadau wedi cael eu hystyried ac a allant ddweud wrthyh am rywbeth sydd wedi newid?
 - A yw pobl ifanc yn deall pam nad yw newid wedi cael ei wneud?
 - A oedd yr adborth yn ddealladwy ac yn hygyrch? Os nad oedd, beth wnaeth y staff nesaf?
 - A all staff roi enghraifft o adeg pan gyflëwyd neges heriol i bobl ifanc – sut y gwnaethant hynny a beth oedd yr

Byddwn yn dweud wrthyh beth sy'n digwydd nesaf.

- Mae staff yn rhoi tystiolaeth eu bod wedi cyfathrebu â phobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n ystyried gwahanol anghenion.

Gweithio'n Well i Chi

Byddwn yn gweithio gyda chi a dysgu sut gallwn ni wneud pethau'n well.

- mgyngghoriadau, grwpiau ffocws, holiaduron, arolygon, ymyriad un-i-un a grŵp, myfyrio, gwerthuso, argymhellion, adroddiadau ac ati.
- Dylid cael gweithdrefn gwyno weladwy hefyd y gall pobl ifanc ei defnyddio
- Staff i ddangos sut maent wedi gweithredu agenda sy'n seiliedig ar hawliau a barn pobl ifanc:
 - Sut y caiff y sylwadau eu hadlewyrchu mewn cynlluniau cyflawni strategol a gweithredol?
 - Sut bydd y ddarpariaeth yn monitro ac yn myfyrio ar newidiadau i wneud gwelliannau pellach/gwrthdroi newidiadau nad ydynt yn effeithiol yn y dyfodol, ac ati.
- Pa safonau y gweithiwyd arnynt yn benodol?
- Pa welliannau sydd wedi gweithio yn y gorffennol?
- Byddwn yn sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym yn gwneud cynlluniau a phenderfyniadau
- Mae staff yn dangos tystiolaeth o sut y gwnaethant ofyn i sampl gynrychioliadol o bobl ifanc am eu barn mewn amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi hygyrchedd:
 - Sut y cafodd ei ddefnyddio mewn cynlluniau strategol/gweithredol?
 - A yw staff yn gallu rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae wedi cael ei rhaeadru i staff a gwirfoddolwyr eraill?
- A wnaed unrhyw newidiadau? A yw'r bobl ifanc yn fodlon â'r newidiadau hyn?
- Pa benderfyniadau sydd wedi cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan adborth pobl ifanc?

Safonau Cyfranogiad Ffurflen hunan-asesu

Enw:

Sefydliad:

Rhesymau pam rydych chi'n ymgeisio am y Nod Barcud:

Rhowch o leiaf dri darn o dystiolaeth am bob Safon, gan sicrhau bod pob pwynt ym mhob Safon yn cael ei drafod, yn y blychau sylwadau isod. Am enghreifftiau, ac am wybodaeth am ddefnyddio'r ffurflen hon, cyfeiriwch at y canllawiau uchod.

Graddiwch eich hun fel Bwriadu, Datblygu neu Cyflawni ar gyfer pob Safon.

Osgowch jargon ac acronymau gan y caiff y ffurflen hon ei darllen gan bobl ifanc. Uchafswm o 500 o eiriau am bob Safon.

Dyddiadau cyflwyno Nod Barcud Cenedlaethol:



1

Gwybodaeth

Mae gan bobl ifanc yr hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael iddyn nhw wneud penderfyniad gwybodus.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni



Defnyddiwch y nodiadau canllaw

Sut mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth sydd o ansawdd da, yn glir ac yn hygyrch?

Sut mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i bobl ifanc am bwy sy'n mynd i wrando a gadael iddyn nhw wybod pa wahaniaeth y gallai eu cyfranogiad nhw ei wneud?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

2 Chi biau'r dewis

Safon 2 yw "Mae gennych yr hawl i ddewis bod yn rhan o bethau sy'n bwysig i chi, a gweithio arnynt.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni

Defnyddiwch y nodiadau canllaw

Ydy'r gwasanaeth yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i bobl ifanc ddewis a ydyn nhw eisiau cymryd rhan?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

3

Dim gwahaniaethu

Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni



Defnyddiwch y
nodiadau canllaw

Sut mae'r gwasanaeth yn
herio gwahaniaethu?

Sut mae'r gwasanaeth yn
darparu amrediad o
gyfleoedd a chefnogaeth
i ddiwallu anghenion
plant a phobl ifanc?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

4 Parch

Mae gan bobl ifanc yr hawl i leisio eu barn. Mae eich safbwyntiau'n bwysig a byddan nhw'n cael eu parchu.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni

Defnyddiwch y nodiadau canllaw

Sut mae'r gwasanaeth yn gwrandao ar farn, profiadau a syniadau pobl ifanc ac yn eu cymryd o ddifrif?

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ar bethau maen nhw'n dweud eu bod yn bwysig?

Sut mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi beth sydd gan bobl ifanc i'w gynnig?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

5

Rydych chi'n cael budd ohono

Mae gan bobl ifanc yr hawl i ddysgu a bod y gorau y gallan nhw fod.

Mae gan bobl ifanc gyfleoedd i weithio gydag eraill a gwneud gwahaniaeth.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni



Defnyddiwch y nodiadau canllaw

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio'n ddiogel gyda phobl ifanc mewn dulliau diogel, hwyl a phleserus?

Sut mae'r gwasanaeth yn manteisio i'r eithaf ar beth mae pobl ifanc yn ei wybod, ar yr un pryd â gwneud pethau i feithrin eu hyder a'u sgiliau?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

6 Adborth

Mae gan bobl ifanc yr hawl i wybod pa wahaniaethau maen nhw wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrandao ar eu syniadau.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni

i Defnyddiwch y nodiadau canllaw

Sut mae'r gwasanaeth bob amser yn sicrhau bod gan bobl ifanc adborth o fewn cyfnod a gytunwyd?

Sut mae'r gwasanaeth yn dweud wrth bobl ifanc am y ffyrdd mae eu syniadau wedi cael eu defnyddio a pham?

Sut mae'r gwasanaeth yn dweud wrth bobl ifanc beth sy'n digwydd nesaf?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

7 Gweithio'n well i chi

Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yn ganolog i bopeth maen nhw'n ei wneud.

Bwriadu

Datblygu

Cyflawni

i Defnyddiwch y nodiadau canllaw

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc ac yn dysgu sut mae gwneud pethau'n well?

Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd mae cynlluniau a phenderfyniadau'n cael eu gwneud?

Tystiolaeth/Sylwadau

Sylwadau'r Arolygwyr Ifanc

Pasio

Methu

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 25

SEFYLLFAOEDD

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dosbarthwch y cardiau sefyllfa i'r grŵp. Yn dibynnu ar sut maen nhw'n hoffi gweithio, gallant berfformio'r cardiau sefyllfa neu ddarllen trwyddyn nhw. Yna dylent feddwl am ddatrysiadau; gallant siarad trwy'r rhain neu eu perfformio.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
35 munud	Sefyllfaoedd	Rhoi cipolwg o'r drefn arolygu i'r cyfranogwyr yn ogystal â cheisio meddwl am ddatrysiad i unrhyw broblemau a godir	Cardiau Sefyllfaoedd

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 25

SEFYLLFAOEDD

(PARHAD)

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

SEFYLLFA UN – AROLYGYDD AMHROFFESIYNOL

Pippa lawn boi, sut mae'n mynd?
(arolygydd ifanc)

Beano Dwi'n iawn diolch. Os hoffech fy nilyn i a chymryd sedd, gallwch ofyn rhai
(rheolwr y project sy'n cael ei arolygu) cwestiynau i mi cyn i chi edrych o gwmpas.

Pippa lawn mêt, gai'r gadair 'na?

Beano Ym, cewch am wn i.

Pippa Grêt mêt!

Beano Wel, dyma gofrestr o bobl sy'n mynychu'r clwb a rhai lluniau o'n dathliad agoriadol.

Pippa Ffantastig. Reit, dwi am fynd am dro i weld y bois.

Beano O, iawn, oce. Wel, bydda i yma os byddwch f'angen i.

SEFYLLFA DAU – POBL IFANC DDIM YN CAEL EU CYMRYD O DDIFRIF

Meg Bore da Mr Smith, Megan Ellis ydw i a dyma John Davies.
(arolygydd ifanc) Rydyn ni yma i gynnal arolwg o'ch Safonau Cyfranogi.

Mr Smith Pwy ddiawl ydych chi?
(rheolwr y project sy'n cael ei arolygu)

John Ni yw Arolygwyr Ifanc y Safonau Cyfranogi. Fe gyflwynoch chi
(arolwg ifanc) ffurflen hunanasesu ac fe drefnon ni i ddod i weld eich project.

Mr Smith Oooo, chi. Blydi plant. Rydyn ni wedi cael arolwg go iawn gan oedolion, diolch
yn fawr, gan basio heb unrhyw broblem. Does dim angen i chi ddod yma hefyd.

John Syr, a wnewch chi plis ein gadael i fewn. Rydyn ni
ond yn ceisio gwneud ein swydd.

Mr Smith Esgusodwch fi, dim ond plant ydych chi. Mae angen i mi fynd 'mlaen â'm gwaith.

Meg Ond syr, rydyn ni wedi trefnu hyn.

Mr Smith Oce te, ond brysiwch.
(gan eu gadael i mewn yn anffodlon)

SEFYLLFAOEDD

(PARHAD)

SEFYLLFA TRI – MAE’N DECHRAU’N DDA OND MAE’R GWEITHIWR YN DECHRAU YMDDWYN YN AMDDIFFYNNOL IAWN

Daisy Gwych, diolch. Rydych chi wedi dangos digon o dystiolaeth o’r holl ffyrdd yr ydych chi’n cyfathrebu â’r bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth hwn a sut maen nhw’n cael gwybod am y gwahaniaeth y mae eu sylwadau’n ei wneud.

Dan Nawr hoffem ni ofyn sut mae eich project yn diwallu anghenion plant anabl?

Jenny Mae sawl aelod o staff wedi’i hyfforddi i ymdrin â’r anabl, dyma’r cofnodion hyfforddi. Mae gennym ramp hyfryd a lifft.

Daisy Gwych. Pa newidiadau ydych chi wedi’u gwneud i ddiwallu gwahanol anghenion?

Jenny Fel y dywedais i, mae sawl aelod allweddol o staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant ac wedi rhannu’r hyn maen nhw wedi’i ddysgu gyda gweddill y staff.

Dan Oce. A pha fath o bethau wnaethon nhw eu rhoi ar waith ar ôl yr hyfforddiant hwnnw?

Jenny Fe gawson ni grant bach i osod y ramp a chafodd ei baentio gan bobl ifanc.

Daisy Oce, felly faint o bobl ifanc ag anableddau sydd gennych yn defnyddio’r project ar hyn o bryd?

Jenny Mae gennym amrywiaeth o bobl ifanc o lawer o wahanol gefndiroedd yn mynychu’r prosiect.

Daisy Gwych, a faint ohonynt sydd ag anabledd?

Jenny Edrychwch, gallwch chi ddim fy meio i am y diffyg diddordeb gan bobl anabl yn yr hyn rydyn ni’n ei wneud! Mae dros 90 o bobl ifanc o bob rhan o’r fwrdeistref yn mynychu ein project ac maen nhw’n sicr o’r farn ein bod ni’n cyrraedd y safon!

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 25

SEFYLLFAOEDD

(PARHAD)

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

SEFYLLFA PEDWAR – GORMOD O WAITH PAPUR

Sam Bore da, rydyn ni yma i gwblhau arolwg Safonau Cyfranogi.
(arolygydd ifanc)

David Grêt, braf cwrdd â chi, dewch i mewn.
(gweithiwr yn y project sy'n cael ei arolygu)

Mae David yn mynd â'r tîm arolygu i ystafell dywyll fach sy'n llawn ffeiliau.

David Fe wna'i eich gadael chi i gario 'mlaen â'ch gwaith.

Sam Allwn ni gael gair gyda chi?

David Wrth gwrs, ond gallwch chi edrych ar y ffeiliau'n gyntaf.

Sam Oce. A fydd modd i ni gwrrdd â rhai o'r bobl ifanc?

David Wrth gwrs, os bydd gennych amser ar ôl edrych ar yr holl ffeiliau.

SEFYLLFA PUMP – GWELD RHYWBETH O'I LE

Mae'r arolygwyr ifanc yn gadael y project ar ddiwedd yr arolwg; maen nhw'n pasio person ifanc a gweithiwr ieuencid yn chwarae pŵl. Mae'r person ifanc yn taro'r bêl ac mae'n bownsio oddi ar y bwrdd gan daro'r gweithiwr ieuencid.

Mae'r gweithiwr ieuencid yn codi'r bêl ac yn ei daflu'n flin at y person ifanc gan weiddi 'diawl gwirion' arno.

EGWYDDORION MOESEGOL CRAIDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnwch i'r grŵp esbonio beth yw 'moeseg'. Gallech wneud hyn mewn paru. Rhoddodd Natalie Dean, arolygydd ifanc o Gastell-nedd, y diffiniad defnyddiol hwn i ni – 'safon foesol yw moeseg'. Os ydyn nhw'n cael trafferth meddwl am eu diffiniadau eu hunain gallech ofyn iddyn nhw drafod beth yw eu barn nhw ar ddiffiniad Natalie.

Dangoswch yr Egwyddorion Moesegol Craidd i'r grŵp. Bydd yr ymchwilyr yn:

- Diogelu diddordebau'r rheiny sy'n rhan o'r gwaith neu yr effeithir arnynt gan eu gwaith
- Adrodd eu darganfyddiadau'n gywir ac yn onest
- Ystyried canlyniadau eu gwaith neu ei gamddefnydd ar y rheiny y maen nhw'n eu hastudio a chyfranogion eraill

- Cydnabod ffiniau eu gallu
- Sicrhau bod yr ymchwil a wneir yn werth chweil ac y defnyddir dulliau ymchwilio priodol

Esboniwch pam bod ymchwilyr yn defnyddio fframwaith moesegol a pham ei fod mor bwysig.

Rhannwch y grŵp yn bump grŵp bach. Rhowch un o'r egwyddorion moesegol a darn o bapur i bob grŵp.

Gofynnwch iddynt gyfieithu'r egwyddor i mewn i iaith syml. Yna rhannwch y dudalen yn ddwy adran, un â'r teitl 'ni' a'r llall â'r teitl 'nhw'. Yn yr adrannau hynny gofynnwch iddynt ysgrifennu manteision yr egwyddor hon i'r arolygydd o dan 'ni' a'r manteision i'r sefydliad sy'n cael ei arolygu o dan 'nhw'.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
35 munud	Egwyddorion moesegol craidd	Ystyried yr egwyddorion moesegol a'u deall, a pham eu bod yn bodoli	Siart troi, Pennau, Egwyddorion moesegol

AROLYGWYR IFANC GWEITHGAREDD 27

CYNLLUNIO AROLWG

PENNOD 6
SICRWYDD
ANSAWDD

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Soniwch wrth y grŵp am yr arolygon ffug sydd wedi'u cynllunio. Rhowch nhw yn eu grwpiau arolygu.

Gofynnwch i'r grwpiau gynllunio eu harolygon, gan feddwl am yr hyn sydd angen iddynt ei ofyn a'i gofnodi, casglu'r gwaith papur, a dyrannu rolau. Cofiwch eu hatgoffa y bydd angen iddynt ysgrifennu'r adroddiad ar ôl hynny ac felly bod angen iddynt sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Cofiwch eu hatgoffa i ystyried yr egwyddorion moesegol a chadw'r Safonau wrth wraidd popeth a wnânt.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
40 munud	Cynllunio	Cyfarwyddo â'r broses wrth gynllunio arolwg. Yr hyn sydd angen iddynt ei wneud, rolau, ystyriaethau	Pennau, papur, siart troi, safonau

AROLWG FFUG

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Bydd y materion ymarferol sydd ynghlwm wrth y sesiwn hon yn amrywio rhwng grwpiau.

Os ydych yn cwblhau'r hyfforddiant hwn fel rhan o gwrs preswyl, gallech ddefnyddio'r lleoliad preswyl; y broses hyfforddi; neu'r sefydliad sy'n cynnal yr hyfforddiant i wneud eich arolwg ffug.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
2 awr	Arolwg Ffug	Deall yr ymweliad arolygu wrth baratoi ar gyfer arolwg go iawn.	Pennau, papur, siart troi, safonau

YSGRIFENNU ADRODDIAD

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Rhowch hyd at awr i'r grŵp ysgrifennu eu harolwg yn fras. Byddwch ar gael i roi cyngor a chymorth os oes angen. Dylai hyn adlewyrchu gymaint â phosibl y drefn wirioneddol y byddant yn ei dilyn. Felly os bydd ganddynt oedolion yn ysgrifennu, gwnewch hyn.

Dewch â nhw ynghyd am drafodaeth i sôn am beth aeth yn dda; beth aeth o'i le, beth arall fyddai wedi bod yn ddefnyddiol.

Os yw'n briodol i'ch grŵp gallwch strwythuro'r drafodaeth hon drwy ddefnyddio carwsél papur – ysgrifennwch y tri chwestiwn; beth aeth yn dda, beth aeth o'i le, beth arall fyddai wedi bod o ddefnydd ar ddarnau o bapur, rhannwch y grŵp yn dri gan roi taflen i bob un i ateb. Ar ôl pum munud pasiwch y taflenni o gwmpas y grwpiau. Rhowch bum munud arall iddynt cyn ailadrodd y broses.

Yn olaf rhowch y taflenni'n ôl i'r grwpiau gwreiddiol a gofynnwch iddynt grynhoi'r adborth.

Rhannwch yr adborth a dechrau trafodaeth.

Sicrhewch fod pawb yn cael y cyfle i gyfrannu at ysgrifennu'r adroddiad, a bod pawb yn cael yr un cyfle i roi eu barn

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
1 awr	Ysgrifennu'r adroddiad	Deall y drefn o ysgrifennu'r adroddiad.	Pennau, papur, siart troi, safonau, Tystiolaeth a gesglir o'r arolwg ffug.

YSGRIFENNU ADRODDIAD (PARHAD)

TEMPLED ADRODDIAD AROLWG

Adroddiad Gwerthuso Tîm Arolygwyr Ifanc ar gyfer

CYFLWYNIAD

- Pwy gynhaliodd yr arolwg?
- Pwy gafodd ei arolygu?
- Pryd oedd yr arolwg?
- Nod yr arolwg

CRYNODEB BYR AM Y SEFYDLIAD

- Enw'r sefydliad a beth mae'n ei wneud

BETH WNAETHON NHW'N DDA?

- Rhowch enghreifftiau o waith/arfer da a wnânt yn erbyn pob un o'r Safonau e.e. safonau y maent wedi cyflawni'r golau gwyrdd ynddynt (statws 'Cyflawni')
- Adborth cadarnhaol

BETH ALLAN NHW EI WNEUD YN WELL (MEYSYDD I'W GWELLA)

- Dewiswch unrhyw feysydd o'r Safonau y cawson nhw oleuadau coch/oren (Bwriadu/Datblygu) ynddynt.

PWYNTIAU GWEITHREDU

- Sut gallan nhw wella yn erbyn y Safonau? Rhowch awgrymiadau cadarnhaol neu weithgareddau yr ydych chi'n meddwl y gellid eu defnyddio i'w helpu i wella eu gwasanaeth a'u gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

CASGLIAD

- Rhowch eich nodau, darganfyddiadau ac awgrymiadau ynghyd gan grynhoi'r hyn a ddysgoch